

ECO'R WYDDFA

RHIF 382

TACHWEDD 2010

PRIS 50c

BALCHDER BRO

Dros y blynyddoedd bu'r "Eco" yn cofnodi newyddion misol y gwahanol bentrefi ac yn gyfrwng i ddathlu llwyddiannau unigolion a mudiadau o fewn plwyfi.

Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug a'r Waunfawr. Yn yr un modd bu'n llais lleol i fynegi barn ynglyn â phryderon yr ardal am ddatblygiadau arfaethedig o fewn y fro. Yn wahanol i wythnosolyn fel yr Herald Saesneg a'r dyddiol Daily Post, ein papur ni ydi'r "Eco". Yn ein meddiant ni y mae o. Mae gan bob un o'i ddarllenwyr yr hawl i fynychu'r Cyfarfod Blynyddol a datgan barn am gynnwys y papur ac i gynnig cymorth tuag at gyhoeddi'r papur. Ac y mae nifer yn gwneud hynny. Ond mae'r "Eco" yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Nid newyddiadurwyr proffesiynol sy'n gofalu fod y papur yn cyrraedd eich ty yn fisol. Does gan yr "Eco" ddim gweithwyr llawn amser yn chwilio am ac yn sgwennu straeon. Rhaid dibynnu ar gael y straeon a'r

hanesion gan unigolion a sefydliadau lleol. Ac fe ddylem ymfalchio yn y ffaith fod cymaint o unigolion, mudiadau a sefydliadau o fewn ein bro yn llwyddo, a hynny'n cael ei gofnodi yn yr "Eco".

Dyna pam ein bod y mis hwn yn llongyfarch y canlynol:

- Hafod Eryri ar dderbyn gwobr arall yn ddiweddar i nodi pensaerniaeth nodedig yr adeilad uchaf yng Nghymru.

- Ysgol Gwaun Gynfi am ennill gwobr Pencampwyr y Gymuned yn dilyn ymdrech arbennig i gasglu arian i brynu offer chwarae i ferch leol yn dioddef afiechyd.

- Sharon Ray, athrawes yn Ysgol Penisarwaun, fydd yn cynrychioli Cymru yn Llundain yn ystod y mis nesaf, ac yn anelu am ennill un o Wobrau Dysgu'r Deyrnas Gyfun am 2010.

Yn anffodus, ni dderbyniwyd gwybodaeth na lluniau am yr un o'r tri digwyddiad hwn; llwyddiannau a ddylai gael mwy o sylw yn ein papur lleol. Balchder bro: hwnna ydi o!

Cyfarfod Blynyddol yr 'Eco'

Yn y Sefydliad Coffa,
Llanrug

Nos Fawrth, Tachwedd 16
am 7:00

CYFARFOD BLYNYDDOL APÊL Y CADEIRYDD

Tair blynedd yn ôl pan oedd dyfodol yr *Eco* yn y fantol cafwyd cyfarfod blynyddol niferus iawn a llawer yn rhoi eu henwau i wirfoddoli i ysgwyddo peth o'r gwaith o gynhyrchu'r *Eco* bob mis.

Ers 35 mlynedd mae llwyddiant yr *Eco* yn dibynnu ar wirfoddolwyr ffyddlon sy'n anfon newyddion i'r gohebwyrr lleol, i gyfranwyr erthyglau rheolaidd ac achlysurol, y dosbarthwyr a'r gwerthwyr ynghyd â'r cyfeillion sydd yn plygu'r *Eco* yn eu pentrefi unwaith y flwyddyn ac, wrth gwrs, y darllenwyr oll.

Er fod ugeiniau yn cyfrannu

at lwyddiant yr *Eco* mae un elfen o'r gwaith yn syrthio ar ysgwyddau nifer fechan o wirfoddolwyr sy'n ymgynnull yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug i osod y papur cyn ei anfon i'r wasg.

Mae dyfodol yr *Eco* yn sicr ond byddai'r criw bach sydd yn gosod am ddwy awr ar brynhawn Sul unwaith y mis yn croesawu gwaed newydd ifanc neu hŷn i ysgafnhau ychydig ar y baich.

Dewch yn llu i'r Cyfarfod Blynyddol i ddangos eich cefnogaeth i'r *Eco* ac i gynnig eich gwasanaeth i gynnal y gwaith.

ENNILL SBONC Y GOFOD



Llongyfarchiadau mawr i Elin, un o enillwyr cystadleuaeth celf Sbonc y Gofod (sialens ddarllen yr Haf 2010) a drefnwyd gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd. Dyma hi'n derbyn ei gwobr yn llyfrgell Llanberis.

Bu Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn cynnal nifer o weithgareddau ar gyfer plant drwy gydol gwyliau'r haf fel ymgyrch i annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio llyfrgelloedd y sir drwy greu bwrlwm ac awyrgylch hwyliog.

Thema'r gweithgareddau eleni oedd y gofod a bu i ddwsinau o blant wneud creaduriaid lliwgar o blanedau eraill fel rhan o gystadleuaeth Sbonc y Gofod. Bydd y dynion bach arallfydol i'w gweld yn llyfrgelloedd Bangor a Chaernarfon yn ystod yr hydref. Roedd y gystadleuaeth yn rhan

o'r Sialens Ddarllen sef ymgyrch boblogaidd iawn i hybu diddordeb plant mewn darllen. Mae bron i 2,000 o bobl ifanc wedi cymryd rhan a bydd y rhai sydd wedi cyflawni'r her yn derbyn gwobrau.

Yn cyd-redeg a'r Sialens Ddarllen, cynhaliwyd nifer o weithgareddau ar gyfer plant yn nifer o lyfrgelloedd y sir gan gynnwys gweithdai celf, clai a chreffft.

Gwelwyd cynnydd o 15% yn y nifer o fenthyciadau gan blant o lyfrgelloedd Gwynedd yn yr un cyfnod.

BALCH O'U BRO



Rhai o drigolion Nant Peris a fu'n plannu bylbiau Cennin Pedr yn ddiweddar er mwyn rhoi lliw i harddu'r pentref pan ddaw'r gwanwyn. Cyflwynwyd y bylbiau gan Wyl Ffair Nant, a mawr yw'r diolch iddynt gan y rhai a fu'n plannu.

ECO'R WYDDFA

RHIF 382

TACHWEDD 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu: ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Ellis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (850799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL, 21 TACHWEDD

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 2 RHAGFYR

Dyddiad Gosod

Nos SUL, 28 TACHWEDD

Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Rhagfyr Nadolig	Tachwedd 21 Rhagfyr 5	Rhagfyr 2il Rhagfyr 16	Caeathro Ysgol Brynrefail

Llythyrau

'Arwel',

Llanrug, Caernarfon,
Gwynedd. LL55 3BA
01286 870760

tr@roberts485.freeseve.co.uk

Annwyl Olygydd,
Yr ydym newydd ddychwelyd
adref i Gymru ar ôl treulio
blwyddyn yn gweithio yn y
Wladfa ym Mhatagonia. Cyn
dychwelyd, fodd bynnag,
rhesom addewid i'r cyfeillion
sy'n rheoli Ysgol yr Hendre,
Trelew, lle bu Nant yn addysgu
Cymraeg, y byddem yn gofyn yn
garedig i'r Papurau Bro,
gynnwys y cais canlynol, ar ran
yr ysgol, yn rhifyn mis Hydref
neu fis Tachwedd eleni. Hoffem
felly pe byddech yn fodlon
cyhoeddi'r llythyr hwn a
thynnu sylw eich darllenwyr at
ei gynnwys.

Ysgol yr Hendre

Trelew,
Chubut

Patagonia - Yr Ariannin
Rydym yn chwilio am
athro/athrawes Cymraeg, sydd
wedi derbyn hyfforddiant ar
gyfer addysgu mewn Ysgol
Gynradd i weithio am 10 mis yn
Ysgol yr Hendre yn ninas
Trelew ym Mhatagonia. Bydd y
tymor addysgu yn cychwyn ym
mis Mawrth ac yn dod i ben ym
mis Rhagfyr, gyda phytnefnos o
wyliau ym mis Gorffennaf.

Mae Ysgol yr Hendre yn
cynnig gwersi trwy gyfrwng y
Sbaeneg yn ogystal â thrwy
gyfrwng y Gymraeg. Blwyddyn
4 yw'r dosbarth uchaf ar hyn o
bryd, ond o fis Mawrth 2011,
bydd yr ysgol yn cynyddu i
gynnwys Blwyddyn 5. Ystod
oed y disgyblion yw 3 i 10, ond
nid ydynt yn siarad Cymraeg

gartref. Mac'r system addysg ym
Mhatagonia yn wahanol iawn i'r
drefn o addysgu sy'n bodoli yng
Nghymru. Yr ydym felly yn
chwilio am berson brwdfrydig,
sydd yn hoffi gweithio gyda
phlant, ac sy'n abl i weithio'n
hyblyg mewn amryw o wahanol
sefyllfaoedd.

Bydd y sawl a benodir yn
cydweithio yn yr ysgol gydag
Athrawes Sbaeneg, a disgwylir
iddo/iddi fod yn barod i
ymgymryd â gwahanol
weithgareddau allgyrsiol gyda
phlant yr ysgol, fel
Eisteddfodau a nosweithiau
llawen.

Bydd y diwrnod gwaith yn
cychwyn am 8 y bore ac yn
gorffen am 4 y pñawn. Darperir
cinio canol dydd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn talu am
docyn awyren o Lundain i
Drelew. Telir cyflog athro/
athrawes ar raddfa tâl y Wladfa.
Darperir llety a bwyd gyda
theulu o'r ardal, o bosib yng
nghartref un o'r rhieni sydd â
phlentyn yn mynychu'r ysgol.

Os oes gennych chi
ddiddordeb yn y swydd, neu os
ydych chi am dderbyn mwy o
fanylion cysylltwch â'r ysgol
a/neu anfonwch eich CV at:
ysgolyrhendre@gmail.com Os
am air anffurfiol am y swydd
gellir cysylltu hefyd â Tegid a
Nant Roberts ar 01286 870760
Yn ddiffuant,
TEGID A NANT ROBERTS

Cilfynydd
Llanberis

Ffôn: 872390

john.cilfynydd@btinternet.com

Plentyn y Nadolig

Mae cyfle eleni eto i gefnogi
Ymgyrch Plentyn y Nadolig
trwy baratoi bocs esgidiau o
anrhegion i blant neu bobl ifanc
yn y gwahanol wledydd sy'n
derbyn y bocsys bob blwyddyn.

RHODDION

£25 Dienw - i ddatgan y
pleser mawr gaiff, o ddarllen
yr Eco'n fisol.

£10: Er cof am Eifion ab
Elwyn Gruffudd, Caeathro;
Ernest a Margaret Ellen,
Hafan, 7 Porth y Gogledd,
Deiniolen.

£5: Liam a Mari, 3 Hafod
Oleu, Deiniolen; Mrs Marian
Williams, 18 Stad Tŷ Hen,
Waunfawr; Alwena Thomas,
8 Rock Trc., Llanberis

Dros y blynyddoedd, mae
miloedd lawer o focsys wedi eu
hanfon o'r fro hon i blant mewn
gwledydd fel Romania, Iwcrain,
Serbia, Bosnia, Liberia a
Mosambic.

Bydd rhai o ysgolion y fro yn
cymryd rhan eleni eto. Os nad
yw eich ysgol chi'n cymryd rhan
eleni, beth am holi os oes capel
neu eglwys yn eich pentref yn
gwneud hynny.

Fel arall, gallwch gysylltu â
mi am ragor o wybodaeth a
thaflen sy'n egluro sut i lenwi'r
bocs, a beth i'r roi (a beth i
beidio ei roi) ynddo.

Byddaf angen y bocsys erbyn
dydd Gwener, Tachwedd 19 gan
fod y lori yn dod i'w casglu
ddydd Sadwrn, Tachwedd 20.

Diolch yn fawr

JOHN PRITCHARD

Dwyfor
Nant Peris

Annwyl Ddarllenwyr

Tybed oes gan rywun gopi sbâr o
Eco'r Wyddfa, Chwefror 2010?

Mae gen i gasgliad cyfan o'r
Eco, o'r rhifyn cyntaf un. Ond
rwyf wedi colli fy nghopi o rifyn
Chwefror 2010.

Byddwn yn ddiolchgar iawn
os medr rhywun fy helpu trwy
roi gwybod i mi os oes gennych
gopi sbâr i mi.

Gallwch fy ffonio ar 01286
870440.

Diolch yn fawr iawn

ELWYN SEARELL JONES

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Llythyr

Tan y Clogwyn
Llanberis
Gwynedd LL55 4LF
Cronfa Goffa R.H. Owen

Annwyl Olygydd,
Mewn cyfarfod o
Ymddiriedolwyr y Gronfa uchod
ar 14 Medi 2010 penderfynwyd
datgan gwerthfawrogiad
diffuantaf i Swyddogion yr Eco
am y caredigrwydd o hysbysu
ymgeiswyr am grantiau o'r
Gronfa. Ers blynnyddoedd bellach
bu i'r Eco hysbysu hyn yn
rhifynnau Mehefin a Gorffennaf
bob blwyddyn. Er y cychwyn
gwnaed hyn yn hollol ddi-dâl,
gan arbed costau sylweddol a
hwyroddo y gwaith.

Eleni daeth deg cais am
grantiau i law a phleser yw
cyhoeddi fod y deg ymgeisydd
wedi bod yn llwyddiannus.
Rhoddir grantiau i ddisgyblion
dalgyrch Ysgol Uwchradd
Brynrefail, Llanrug, sydd ar
drothwy dilyn cyrsiau gyrfaol,
boed mewn coleg neu unrhyw
sefyllfa arall. Mae'n bwysig deall
fod y grantiau yn agored i
ddisgyblion sydd yn byw yn
unrhyw bentref o'r dalgyrch ac
fe'i rhoddir deirgwaith i bob
ymgeisydd dilys.

Y mae'r Ymddiriedolwyr yn
awayddus i bob disgybl yn y
categori hwn fanteisio ar y cyfle i
dderbyn cymorth ariannol o'r
Gronfa. Mawr hyderir y bydd
disgyblion o holl bentrefi y
dalgyrch yn gwneud ceisiadau yn
y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir
JOHN H. HUGHES
Ysgrifennydd

Urdd Gobaith Cymru
Swyddfa'r Urdd

Aberystwyth
Ceredigion SY23 1EY

Urdd Gobaith Cymru

Tlws John a Ceridwen Hughes

Daeth yr amser unwaith eto i ni
ystyried enwau ar gyfer y tlws
uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd
wedi derbyn cynnig caredig y
teulu i gyflwyno tlws yn
flynyddol yn Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd i
unigolion sydd wedi gwneud
cyfraniad sylweddol i ieuenctid
Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y
pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd
wedi cyfrannu at waith ieuenctid
yn y gorffennol ond sydd wedi
rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn
ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn
dal i weithio gyda phobl ifanc.

- Gofynnir i chi ddefnyddio'r
ffurflen enwebu briodol sydd ar
gael o Swyddfa'r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod
wrth enwebu unigolion:

- Dylai'r gwaith fod trwy

gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n
ymwneud ag ieuenctid sy'n
dysgu'r iaith.

- Dylai fod yn waith wyneb yn
wyneb â phobl ifanc dros 11 oed
a thu allan i gyfundrefn addysg
ffurfiol.

- Gall fod yn ymwneud ag
unrhyw agwedd o waith
ieuenctid (diwylliannol,
corfforol, dyngarol,
cymdeithasol, gyda phobl anabl,
gyda dysgwyr, rhoi cyfle i
ieuenctid gyfrannu, gwaith awyr
agored, cyfnewid ac yn y blaen).
- Gall fod yn waith gydag
unrhyw fudiad ieuenctid.

Os am ffurflen enwebu
cysylltwch gyda Enfys Davies,
Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth ar
01970 613103, neu trwy e-bost
enfys@urdd.org. Y dyddiad cau
fydd dydd Mercher, 1 Rhagfyr
2010.

Yn gywir
EFA GRUFFUDD JONES
Prif Weithredwr

Annwyl Gyfeillion

Oes gennych chi gysylltiadau â
thref Nefyn? A fu gennych deulu
yno? Fuoach chi'n mynychu'r
ysgol yma neu'n treulio gwyliau
yn y cylch? Os felly, bydd
gennych ddiddordeb mewn
gwybod bod canolfan newydd
sbon yn cael ei hadeiladu yma.
Rydym yn gwahodd pobl i
gyfrannu at y prosiect trwy ein
cynllun brics 'rhithiol'.

Am £5 yn unig gallwch brynu
bricsen a'ch enw chi, neu
berthynas (wyrion, wyresau neu
blant, er enghraifft) arni neu
fricsen er cof am rywun. Bydd
murlun o'r brics ar un o furiau
mewnol yr adeilad newydd - yn
gofnod i genedlaethau'r
presennol a'r dyfodol o'r holl
bobl sydd wedi cyfrannu at
lwyddiant y fenter i roi canolfan
newydd wych i bobl y dref.

Os oes gennych ddiddordeb,
cysylltwch â ganolfanefyn
@hotmail.co.uk neu efo Kath
Morris ar (01758) 720901 neu
Gwenda Williams (01758)
721449

Annwyl Ddarllenwyr

Gerddi Bach, Waunfawr

Mae nifer ohonoch wedi bod yn
holi beth oedd canlyniad yr
holiadur a ddosbarthwyd yn yr
ardal i gael eich barn am
ddyfodol Gerddi Bach ym mhen
draw pentref Waunfawr ger
Dolerddi.

Pleidleisiodd 78 o blaid cael
cae chwarae i blant lleiaf, fel ger y
Ganolfan; 12 o blaid allotments, a
11 dros gael maes parcio.

Bydd y Cyngor yn ystyried y
mater yn eu cyfarfod nesaf.
Carwn ddiolch i bawb wnaeth
gymryd rhan.

Yn gywir,

EURIG WYN
Waunfawr

CYFROL NEWYDD ER COF



Yn ystod y mis, cafodd cyfrol newydd o farddoniaeth gan Richard Llwyd Jones ei bwrw i'r byd mewn noson yn Ffestri'r Cysegr, Bethel. Roedd holl elw'r gwerthiant yn cael ei gyflwyno i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd er cof am frawd Richard, a fu farw'n gynharach eleni. Yn y llun gwelir aelodau o ddosbarth cynganeddu Karen Owen a fu'n cynnal y noson.

Y Prif Lenor, Jerry Hunter

a Grace Roberts

Enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen

yng nghwmni Karen Owen

Nos Wener

29 Hydref 2010

am 7:30yh

Capel y Groes, Penygroes

£3/£2 i'r di waith/pensiynwyr.

Tocynnau ar gael gan Gwen Lasarus: 01286 679465

Theatr Seilo, Caernarfon

Adnodd gwerthfawr yn Dre



**Ydych chi'n chwilio am leoliad ar gyfer eich drama/
cyngerdd/sioe/cynhadledd/cyfarfod nesaf?**

**Angen rhywle ar gyfer ymarferiadau eich côr/band/
grŵp dawn/sesiynnau yoga?**

Ydych chi wedi ystyried Theatr Seilo?

- Yng nghanol Caernarfon
- Auditorium i 290 o bobl
- Ystafelloedd newid
- System goleuadau a sain
- Telelau cystadleuol

(gostyngiadau i fudiadau lleol elusennol, addysgiadol a gwirfoddol)

Cysylltwch â: Mr Merfyn Morgan, Llys Caron, Lôn Ddewi, Caernarfon Ffôn: 01286 672708

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Dymuna Marvin Pritchard, gynt o 58 Bro Rhyddallt, Llanrug, a'i wraig Nia Lloyd Pritchard o Twthill, Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas ar ddydd Sadwrn 4ydd o Fedi. Cynhaliwyd y briodas yng Nghapel y Rhos, Llanrug, gyda'r Parchedig Marcus Wyn Robinson yn darparu'r gwasanaeth. Gyda'r derbyniad yn dilyn yn y Gwesty Bulkely yn Biwmaris.

PLAID CYMRU. Daeth Heledd Fychan i gyfarfod Cangen Llanrug o Blaid Cymru nos Fercher, Hydref 20, ac yr oedd ei hasbri a'i brwdfrydedd yn ysbrydoliaeth. Cyflwynwyd hi gan y Cynghorydd Charles Jones fel un o sêr ifanc y dyfodol, a wnaeth ei marc trwy gynyddu pleidlais y Blaid yn yr Etholiad Cyffredinol yn sedd anodd Maldwyn. Thema ei sgwrs oedd cryfhau Plaid Cymru i gryfhau Cymru, ac yr oedd yn awyddus i drafod a datblygu syniadau a pholisïau'r Blaid gyda'r gangen. Cafwyd trafodaeth fywiog, a phleser oedd gweld yno gynrychiolaeth o ieuenctid Llanrug, ein dyfodol.

Cynhelir Noson Goffi yn y Sefydliad Coffa, nos Fercher, Tachwedd 24 am 7.30 o'r gloch. Dyma'r ymdrech flynyddol i godi arian, a bydd Trysorydd y Gangen, Meirwen Lloyd (Ffôn 675359), yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad ariannol.

I gynnig help gyda'r stondinau neu nwyddau i'r bwrdd gwerthu, ffoiniwch Phyllis (870237), Vera (674878) neu Llinos (674478). Croeso cynnes iawn i bawb.

EISTEDDFOD PENTREFI LLANRUG A CHWM Y GLO. Bydd noson Celf a Chrefft yn cael ei chynnal ar nos Fawrth yn

8fed o Dachwedd yn Neuadd Ysgol Llanrug. Cynnyrch i law erbyn 6.00. Bydd arddangosfa o'r holl waith i'w weld rhwng 6.00 a 6.30, ac yna bydd y beirniadu! Cofiwch hefyd am yr eisteddfod ei hun yn Neuadd Ysgol Brynrefail ar nos Wener y 12fed o Dachwedd am 5.30. Testunau ar gael yn lleol.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug o Ferched y Wawr yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 12fed Hydref ac estynnwyd croeso cynnes i bawb gan Menna, y Llywydd. Cafwyd manylion am nifer o ddigwyddiadau: cyfarfod ynglŷn â chyfrifoldebau Sir Gaernarfon parthed Sioe Llanellwedd yn Festri Capel Cysegr, Bethel ar 21ain Hydref, cwrs crefft yn Nhregarth ar 30ain Hydref, Ysgol Undydd i Ddysgwyr yn Ysgol Maesincla ar 6ed Tachwedd, penwythnos celf a chrefft yn y N.E.C. o'r 5ed i'r 7fed Tachwedd, Cwis Cenedlaethol yn Seiont Manor ar 19eg Tachwedd a chysiau yn Nhŷ Newydd.

Anogwyd yr aelodau i sefydlu grwpiau trafod llyfrau ar gyfer cymryd rhan yn y rhaglen deledu Wedi 3. Mae Merched y Wawr yn cefnogi ymgyrch elusen Achub y Plant i gasglu ffonau symudol a chetris inc. Mae Rhanbarth Arfon yn casglu hen sbectolau ar gyfer gwledydd y Trydydd Byd. Eleni mae'r Is-Bwyllgor Anabl yn casglu tuag at blant byddar yn y gymuned. Nodwyd nad yw'r rhaglen Wedi 3 wedi rhoi sylw i'r Wawr ond eto wedi cynnal llawer o drafodaethau ar gylchgronau Saesneg eu hiaith ac y dylai canghennau ac unigolion ysgrifennu at y cynhyrchydd ynglŷn â hyn. Gofynnwyd i'r gangen gefnogi prosiect y Llywydd Cenedlaethol a chasglu enwau tai, caeau a ffermydd.

Llongyfarchwyd cangen



Llanrug ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth llyfr lloffion; Megan fu'n gyfrifol am y cyfan o'r gwaith.

Gwestai'r noson oedd Eluned Davies, rheolwr Y Caban, Brynrefail. Magwyd Eluned yn y Rhondda a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Ynyswen ac Ysgol Uwchradd Rhydfelen ac yna bu'n astudio Seicoleg, Cemeg a Chymdeithaseg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Bu'n cymryd rhan yn ymgyrch Cymdeithas yr Iaith i gael sianel Gymraeg. Cyfarfu â'i chariad tra'n gweithio yn y Fic, Porthaethwy. Bu'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn am oddeutu ugain mlynedd, yna bu'n gweithio iddi ei hun yn gwneud cynlluniau busnes; bu'n ymwneud â threfniadau Gŵyl Biwmares a bu'n gweithio i Fynydd Gwefru. Bu'n groesawydd yn y Bull, Biwmares am ddwy flynedd.

Agorwyd Y Caban yn 2004 a bu'n cynnal nifer o weithdai. Erbyn hyn mae yno ymgyngorydd amgylcheddol, pensaer, mudiad Cymdeithas Eryri, stiwdio Pilates, busnes datblygu meddalwedd ar gyfer y sector addysg, stiwdio sain, busnes yn cynhyrchu bocsys y gellir eu compostio, a chaffi. Erbyn hyn mae'r Caban yn hunangynhaliol ac nid yw'n derbyn unrhyw nawdd ariannol. Arwydd arall o lwyddiant Eluned yw bod Caban 2 wedi agor ar Fwlch Llanberis ers mis Mai ac mae ar agor o 7 y bore hyd 8 yr hwyr. Dangosodd Eluned rywfaint o gynnyrch y Caban: letus, sorrel, lovage, morrocan mint, nasturtium,

sweet cicely a chennin syfi.

Bu'n orig ddiddorol iawn a diolchodd Menna yn fawr i Eluned am rannu ei phrofiadau. Paratowyd y baned gan Eirianwen, Linda, Margaret ac Olwen ac enillwyd y raffl gan Nan Jones. Ar 9fed Tachwedd cynhelir noson yng nghwmni'r artist Luned Rhys Parri.

PIANO AR WERTH. Os oes diddordeb, ffoiniwch Ann Parry Jones, Perthi, Bryngwyn ar 01286 673839.

PROFEDIGAETH. Estynnwn gydymdeimlad diffuant at Eifion Evans, Gwyneth a Ruth, Glanmoelyn, yn eu profedigaeth sydyn o golli brawd, Ifor Evan, Brynrefail.

LLONGYFARCHION. Ganwyd Cara Llywelyn i Sharon a Leyton ar mae taid a nain, sef Pat ac Edgar Jones, Swyddfa'r Post, wedi gwirioni gyda'u wyres fach newydd. Dymuniadau gorau i chi i gyd. Ganwyd efeilliaid, mab a merch, i Pali a'i gŵr, Siop y Sgwâr. Pob dymuniad da iddynt hwythau hefyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Edgar, Pat Sharon a Leyton ddiolch o waelod calon am garedigrwydd pawb tuag atynt ar achlysur genedigaeth Cara Llywelyn. Diolch yn fawr.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant Mis Medi oedd:

1. Mrs C. Griffiths, Tan y Fron, Lôn Groes; 2. Mrs M. Parry, Bryn Heli; 3. Mrs M. Parry, Wenllys.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant Hydref oedd:

1. Sheila Williams; 2. Megan Williams.

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y prawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau reŷeniwr (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
Cyf

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig



Mr Iolo Llywelyn, Capel y Rhos yn derbyn ei rodd gan y Parch. Marcus Wyn Robinson.

CAPEL Y RHOS Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch y plant fore Sul, Hydref 17. Diolch i bob un o'r plant am gyflwyno eu gwaith yn raenus ac i'w hathrawon am eu paratoi. Daeth pob un a ffrwythau a llysiau i'r gwasanaeth ac fe rannwyd rhain ymhlith cyfeillion y capel ar ôl yr oedfa. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd y Parch Marcus Robinson rodd o groes Geltaidd gerfiedig mewn pren i Mr Llewelyn am iddo wasanaethu fel blaenor am hanner can mlynedd yn Lerpwl, Capel Mawr Llanrug a bellach yng Nghapel y Rhos. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth maith a ffyddlon i'r achos. Llongyfarchwyd blaenor arall hefyd, sef Mrs Helen Pari

Ceunant ar ddathlu penblwydd arbennig. Pob dymuniad da Helen ar gyfer y degawd nesaf! Braff iawn hefyd oedd cael croesawu dau aelod newydd yn ôl i'r ardal. Mae'r Parch Huw Gwynfa Roberts a'i briod Mair wedi cartrefu yng Nghil y Gors ar Ffordd yr Orsaf, sef drws nesaf i'w mab Iwan a'i briod Gwenda. Croeso mawr hefyd i Megan Hughes, mam Gwenda, sydd wedi symud o Lanberis ac ymgartrefu yn Daron drws nesaf i Gwynfa a Mair.

OEDFAON TACHWEDD
Tach 7 Parch Marcus Robinson Gweinyddir y Cymun.
Tach 14 Parch W Gareth Edwards
Tach 21 Parch Marcus Robinson
Tach 28 Mr Dafydd Iwan.

Llwyddiant Llewod Llanrug



Llewod Llanrug dan 7 oed yn dilyn ennill eu gêm yn erbyn Waenfawr. Maent yn cael tymor llwyddiannus iawn ac yn ymarfer bob nos Iau dan hyfforddiant Meic Williams a Gwion Llwyd



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Cyngor Cymuned Llanrug

Penderfyniadau cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain o Fedi 2010.

- Yn dilyn trafodaeth gyda'r heddlu, penderfynwyd gwahardd y defnydd o boteli gwydr yn y caeau chwarae ac i edrych ar y posibilrwydd o osod camerau CCTV yno. Rhoddwyd addewid y byddai'r heddlu yn monitro'r sefyllfa yn reolaidd. Cytunwyd hefyd i osod biniau newydd yn y caeau chwarae ac i osod arwyddion yn gwahardd cwn.
- Trafodwyd hefyd y broblem goryrru a ceir swllyd yn y gymuned. Cafwyd addewid y bydd yr heddlu yn delio â'r broblem.
- Cafwyd cadarnhad gan y Cynghorydd Charles Jones fod dau gynllun i ddelio â phroblemau traffig yn Sgwâr Llanrug yn cael eu hystyried gan Gyngor Gwynedd – gosod goleuadau traffig a chreu cylchfan ger yr Ysgol Gynradd.
- Trafodwyd Eisteddfod Eryri.

Gan nad oedd pwyllgor gwaith wedi ei sefydlu, penderfynwyd disgwyl am ymateb pellach gan yr Urdd.

- Penderfynwyd gofyn i Menter Fachwen ofalu am y blodau yn cae chwarae Cwmyglo.
- Cytunwyd i dorri eithin ar lwybr Gelliod.
- Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
 - Cais i godi estyniad to fflat ar gefn yr annedd presennol – Pant Bryngwyn, Ceunant, Llanrug.
 - Cais i godi estyniadau a newidiadau – Rallt, Ceunant
 - Cais i ddymchwel annedd presennol a chodi annedd deulawr yn ei le – Afonwy Cottage, Pontrug
- Penderfynwyd peidio cyllido cais am adnoddau gan Ysgol Gynradd Llanrug gan ei fod yn groes i bolisi'r Cyngor.
- Penderfynwyd ysgrifennu at Bennaeth yr Adran Prifffyrdd ynglŷn â difrifoldeb y sefyllfa parcio yng Ngwmyglo.
- Ail-benodwyd Alan Pritchard yn aelod o lywodraethwr Ysgol Gymuned Cwm y Glo.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248-372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB Tŷ STESION

Y Ganolfan, yr Urdd a'r Blaid

DYLAN A NEIL
a BOB GALVIN

yn Nhafarn y Pentref
Waunfawr
nos Sadwrn, 20 Tachwedd
am 8 o'r gloch
Raffl i'r Urdd ar y noson
Tocyn: £5

Dewch i'r noson gymdeithasol
ddifyr hon

Y CLWB 300. Enillwyr mis Medi oedd: £30: Mrs Alice Johnstone, 1 Trefeilian; £20: Mrs Nan Roberts, Pantafon; £10: Mrs Heulwen Huws, Argoed.

CROESO. Dymunwn groesawu a dymuno pob hapusrwydd yn eu cartref newydd i'r teuluoedd sydd wedi ymgartrefu yn Stad Llys y Waun. Mae'n braf gweld rhai o blant y pentref wedi dod yn ôl yma i fyw.

DAMWAIN BWS. Bu clywed am y ddamwain gafodd bws Padarn, a oedd yn cludo rhai o'r pentref i Gaernarfon, yn dipyn o fraw. Anfonwn ein cofion a'n gobeithion am wellhad buan i Mrs Margaret Jones, Mrs Jane Roberts, Mrs Mandy Williams, Mrs Sandra Williams, Awen Parry a Mr Lloyd Jones, Ty'n Twll Bach, a'r teithwyr eraill oedd ar y bws a'r gyrrwr hefyd. ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Grace Dawson, Stad Tref Eilian; i Mrs Joan Buckley wedi iddi gael llawdriniaeth; i Mr Kevin Morgan, Cartrefle a Mr Tecwyn Evans, wedi iddo gael llawdriniaeth calon mewn ysbyty yn Lerpwl. Dymunwn wellhad buan i chi i gyd.

Anfonwn ein cofion hefyd at Llywela Morris, Stad Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

PRIODAS. Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Siôn Emyr Wynne ac Elin, sydd wedi ymgartrefu yn Dôl Gwyrfa, Stad Bod Hyfryd.

DOD YN NAIN. Llongyfarchiadau i Mrs Sylvia Prys, Pen-y-Graig, ar ddod yn nain i Magw Jên, merch fach a anwyd i Llinos ac Ifan, ei mab. Chwaer fach i Mari Glwys.

LLONGYFARCHIADAU i Ifan Morgan, Pen-y-Graig, ar gyhoeddi ei ail nofel, sef *Yr Argraff Gyntaf*. Cyhoeddwyd y nofel yr un diwrnod a genedigaeth ei ferch fach.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Annie Jones, Bod Arthur, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn ddiweddar.

Profedigaeth o golli brawd ddaeth i ran Mr Wilff Jones, Treflys, hefyd. Cydymdeimlwn â chi yn Treflys yn eich colled drist.

ORDEINIO YN FLAENOR. Yn ystod cyfarfod ordeinio ym Methesda, ordeiniwyd Mr Eurwyn Griffith, Trefeddyg, yn flaenor i Eglwys y Waun.

DYMUNA Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Diolch yn fawr i bawb. GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir y canlynol yn ystod mis Tachwedd:

7: Mr T. Alun Williams

14: Gweinidog, Y Parch Gwenda Richards

21: Parch W.R. Williams

28: ---

ac yn ystod mis Rhagfyr:

5: Parch Ddr. Elwyn Richards

12: Y Gweinidog

19: Y Gweinidog

Oedfa Nadolig y plant am 2.00 o'r gloch

26: Y Gweinidog

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor ddiwedd Medi a chroesawyd pawb yn gynnes iawn gan ein Llywydd, Cadi Jones. Gan fod y gangen bellach yn 36 oed aeth Cadi â ni ar daith nostalgig drwy ein hatgoffa am gyfnod sefydlu'r gangen yn y Waun dan lywyddiaeth y ddiweddar Mrs Mary Vaughan Jones. Roedd yr aelodau niferus yn fywiog ac yn hwyliog ond, diolch i'r gweddill ffyddlon, rydym 'yma o hyd', a braf oedd cael croesawu dwy aelod newydd i'n plith.

Dymunwyd yn dda i Pat a Brenda ar ddathlu pen-blwydd priodas arbennig, i Glenys, Sylvia a Cadi ar ddod yn neiniau dros yr haf, dwy ohonynt am y tro cyntaf, ac i Doris Roberts, un o'n haelodau ffyddlonaf, ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Ifan Morgan, mab Sylvia, sydd wedi cyhoeddi ei ail nofel yn ystod mis Awst, sef *Yr Argraff Gyntaf*.

Y dasg nesaf oedd croesawu ein siaradwraig wadd, sef Mrs Angela Roberts o Lanrug a ddangosodd i ni drwy gyfrwng lluniau, ffeithiau a hanesion sut mae cefnogi Masnach Deg, sy'n sicrhau pris teg i ffermwyr am eu cynnyrch, yn gwneud yn siŵr bod arian yn cael eu defnyddio i wella'r gymuned a gofalu am yr amgylchedd ac, yn fwy na dim, i atal defnyddio llafur plant. Cawsom gyfle i weld enghreifftiau o nwyddau Masnach Deg a phrosiectau plant ysgolion lleol, lle mae Angela yn gweithio ar brydiau.

Agorwyd ein llygaid i sylweddoli y gall cefnogi Masnach Deg mewn byd lle mae un plentyn yn marw o dlodi bob 3 eiliad, wneud y gwahaniaeth rhwng byw a marw.

Ar ddiwedd y noson cawsom gyfle i flasuo siocled a phaned Masnach Deg wedi'i paratoi gan Jeni a Brenda. Diolchwyd yn ddiffuant iawn i Angela Roberts gan Irene.

Erbyn y daw yr Eco o'r wasg byddwn wedi cynnal ein hail noson, sef Ffotograffiaeth yng nghwmni Geraint Thomas, Panorama, ac edrychwn ymlaen yn fawr at y noson honno.

Byddwn yn dathlu'r Nadolig eleni yn Y Bistro, Caernarfon, nos Iau, 2 Rhagfyr. Enwau i Olwen os gwelwch yn dda.

YSGOL GYMUNED

Cafwyd nifer o weithgareddau addysgol yn ystod yr wyth wythnos diwethaf.

Glan Llyn. Treuliodd 25 o blant blwyddyn 5 a 6 dridiau pleserus iawn yng Nglan Llyn ddiwedd mis Medi gyda disgyblion Ysgol Bethel. Diolch i'r athrawon a fu'n goruchwyllo'r plant dros y tridiau.

Y Cyngor Ysgol. Cynhaliwyd etholiadau'r cyngor ddechrau mis Medi hoffem longyfarch yr aelodau newydd, sef cynrychiolwyr blwyddyn 3: Tanwen a Sam; blwyddyn 4: Nel a Gethin; blwyddyn 5: Rhiannon a Mabon; Blwyddyn 6: Tomos Morgan a Mared Griffith. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r cyngor hyd yma a bu'r aelodau yn brysur yn gwneud trefniadau ar gyfer Diwrnod Pinc.

Paid Cyffwrdd Dwed! Ddydd Mawrth Hydref y 12fed cafwyd sioe arbennig gan Mark i godi ymwybyddiaeth y plant o beryglon cyffuriau.

Ymweliad â Phlas Mawr Conwy a Thy Mawr yr Wybrnant. Ddydd Mercher, Hydref y 13eg, aeth blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad addysgol i Blas Mawr Conwy a Thy Mawr yr Wybrnant. Roedd yr ymweliad yn cyd-fynd â'r thema tymhorol am y

Tuduriaid. Cawsant ddiwrnod arbennig o dda a thywydd bendigedig.

Teithiau Cerdded Noddedig. Bu'r plant ar deithiau cerdded noddedig. Mae'r teithiau cerdded blynyddol nid yn unig yn codi arian i goffrau'r ysgol, ond yn cyfoethogi'r plant o'u hadnabyddiaeth o'u cynefin a'u milltir sgwâr. Eleni aeth Adran y Babanod ar daith o gwmpas y pentref i lawr i Bompren a cherdded drwy gaeau'r pentref. Bu'r Adran Iau yn cerdded i fyny'r Lôn Wen at Foel Smytho ac i lawr Allgoed Mawr. Hoffem ddiolch i bawb, yn rieni, perthnasau a thrigolion Waunfawr a'r cyffiniau am noddï'r plant.

Rhaglen Deledu Snowdonia 1890. Ddydd Llun, Hydref y 18fed, bu'r BBC yw ymweld â phlant blwyddyn 6 mwyn trafod y gyfres newydd *Snowdonia 1890*. Cyfres yw hon sy'n dilyn taith dau deulu o Gymru i'n gorffennol i brofi bywyd go iawn yn Rhosgadfan dros ganrif yn ôl. Gofynnwyd i'r plant wisgo mewn gwisg y cyfnod a chafwyd gwers hanes o'r cyfnod a dangoswyd clipiau o'r gyfres. Cafwyd bore addysgol iawn a chafwyd llawer o hwyl.

Diwrnod Pinc. Bwriedir cynnal diwrnod o amrywiol weithgareddau ddydd Gwener, Hydref yr 22ain. Disgwylir i holl blant yr ysgol wisgo mewn pinc a bydd cacenni, pwddin a diodydd pinc ar werth yn ystod y dydd. Bydd yr elw a wneir ar y diwrnod yn mynd tuag at elusen Cancr y Fron.

Ras Eryri. Hoffem ddiolch ymlaen llaw i bawb o'r staff, plant a rhieni fydd yn helpu i ddarparu lluniaeth ar gyfer Ras Eryri ddydd Sadwrn, Hydref y 30ain. Diolch yn fawr.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof
1. Cynhelir nosweithiau rhieni wythnos Tachwedd yr 8fed ymlaen.

2. Cynhelir gwasanaeth y Cadoediad yn yr ysgol Tachwedd yr 1leg am 11.00 o'r gloch.

YSGOL YRRU
ELIDIR
DRIVING SCHOOL

07922121226

Hyfforddwraig wedi ei chymradwyo gan yr ASG

Jacqueline Williams

Gwers Gyntaf, 2 awr am bris 1

POSH
PAWS
TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

3. Cynhelir cyfarfod i'r rhieni a'r Llywodraethwyr nos Fercher Tachwedd yr 17eg am 6.30 o'r gloch.

Aros yng Nglan Llyn

Ddydd Llun Medi y seithfed ar hugain deffrais wedi cynhyrfu'n lân, roeddwn i'n mynd I LAN LLYN!! Roedd fy nghêd wedi ei bacio yn barod ac roeddwn yn mynd i dŷ Tomos Parry i gael lifft i'r ysgol. Cyrhaeddodd y bws am hanner awr wedi naw. Yn gyntaf aethom i nôl plant Ysgol Bethel wedyn aeth Cai fy mrawd yn sâl ond roeddwn i yn iawn, diolch byth. Cyrhaeddodd Glan Llyn am chwarter wedi un ar ddeg.

Ar ôl i bawb gael eu pethau aethom ni i'r ystafell ymgynnull i gael rheolau a gwybodaeth am y lle. Roeddwn i yn rhannu ystafell hefo Tomos Parry, Tomos Sion a Morgan, rhif 6 oedd ein ystafell ni.

Y weithgaredd gyntaf oedd canwio ar Lyn Tegid ac wedyn chwaraeom ni gemau a rhoi ein pennau yn y dŵr. Ar ôl dod yn ôl i'r lan gafodd pawb oedd isio neidio i fewn i'r dŵr. Dyma oedd fy mheth gorau i yng Nglan Llyn i gyd. Ar ôl cael bwyd aethon i weld ffilm Simpsons the Movie, roedd yn ddoniol iawn.

Y bore wedyn roeddwn wedi blino ychydig bach ar ôl i Tomos Sion ddeffro pawb am 5 or gloch bore! Yn gynta aethom i ddringo wal ddringo, wnes i ddringo 7 a cyrraedd copa y 7. Wedyn es i'r pwll nofio ac mi wnaeth pawb chware polo dŵr a chware gyda flots. Ar ôl cinio aethom ar yr cwrs rhaffau ac ar yr siglen anferth. Roedd y cwrs rhaffau yn reit hawdd i mi felly fe wnes i o gyda un llaw a fy llygadau ar gau. Ar ôl hynny aethom i fowlio deg, ddes i'n drydydd. Gyda'r nos aethom i'r ystafell ymgynnull i gael disco.

Ar ôl pacio bob dim rhywsut

rhywsut a chael brecwast aethom i adeiladu rafft wrth y llyn. Roedd yn arnofio yn dda ac ni wnaeth neb ddisgyn i fewn ac fe dorrom ni y record am dynnu y rafft oddi wrth ei gilydd, ni oedd y cyflymaf gan ein bod wedi ei wneud mewn 2.10 eiliad. Buom yn cyfrifiannu a fi a Morgan ddaeth yn ôl gyntaf. Yn anffodus roedd yn amser mynd adref roeddwn i wedi mwynhau yr ymweliad yma fwy na'r tro diwethaf.

Mae'n brofiad anhygoel aros yng Nglan Llyn, diolch i Syr Ifan ap Owain Edwards am sefydlu'r URDD!!

TOMOS MORGAN BL. 6

Snowdonia 1890

Dydd Llun Hydref 18fed daeth criw o bobol o'r BBC, yn sôn am raglen newydd o'r enw Snowdonia 1890. A roedd rhaid i flwyddyn 6 gwisgo dillad o'r Oes Fictoria ac roedd pawb yn edrych yn hen ffasiwn.

Cawsom wers fel yn Oes Fictoria, Mr Dilwyn Williams oedd yn dysgu ni a daeth i fewn yn gweiddi ond yn Saesneg, doedd dim Cymraeg yn gael ei siarad yn y wers yma. Roedd rhaid i ni ddeud tablau gyntaf a wedyn llaw ysgrifen ar lechen yn Saesneg. Ges i cansan smal oedd dipyn yn ddoniol ond nes i ddim chwerthin! Gorffennodd y wers ar ôl hynny cawsom gweld lluniau a llyfrau Log a hefyd Llyfr Cosb. Roedd yn hwyl cael gweld y dystiolaeth o'r adeg.

Wedyn cawsom fynd i gweld clipiau o'r sioe a mae yn edrych yn ofnadwy o dda a diddorol. Bydd ymlaen pob nos Lun, Mercher a Gwener am dair wythnos. Dylsa pawb ei gwyllo, bydd yn dda iawn. Cawsom poster i hefyd.

Cawsom lawer o hwyl gyda y criw BBC a diolch.

HUW WILLIAMS



Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

SMALA
www.smala.net

Gwefan
Poster i
Taflenni
Logo
Cardiau busnes
Llyfrau archebion
Penllythyr
Sticeri . Labeli
Argraffu o bob math

01286 660 364
07887 654 251



Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

O SIAMBAR SELWYN

Un peth 'dwi wedi ei golli yn ystod y misoedd diwetha' 'ma ydi mynd am wyliau. Oedd, roedd 'na amryw wedi eu trefnu, ond bu'n rhaid canslo. Cwestiwn a ofynnir i mi'n aml ydi - 'Ydach chi wedi bod yn y wlad a'r wlad?' Yn amlach na pheidio gallaf ateb, 'Do,' a daw rhyw atgof o'r ymweliad yn syth i'r cof.

Pan oedd Euron yn cael mynd rownd y byd yn rhad ac am ddim i wneud y rhaglenni 'Pacio' roeddwn i'n genfigennus ohono, nes iddo geisio tawelu fy meddwl mai ychydig iawn o amser a gâi i fwynhau ei hun - dim ond yno i wneud yr eitem a throi am adre.

Un wlad y cafodd o y fraint o fynd iddi oedd China. A dyna un o'r gwledydd na fûm i rioed ynddi. Dwi'n cofio canu er stalwm yn y Band o Hope yng nghapel Bethel,

Draw, draw yn China a thiroedd Japan
plant bach melynion sy'n byw.'

Gellir dweud mai symbol cenedlaethol China, fel Cymru ydi'r ddraig, a'r peth cynta sy'n dod i'r meddwl o grybwyll China ydi'r wal fawr - wal y gellir ei gweld o'r gofod, medda nhw. A 'wel, medda Wil am y wal' yma, fe gymerodd hi fil a saith gant o flynyddoedd i'w hadeiladu hi. Yn China, medda'r gwybodusion, y dechreuon nhw chwarae pêl-droed, neu gicio pêl o leia, a hynny yn y drydedd ganrif cyn Crist. Hen derm am hyn oedd 'Tsu Chu'. Cicio ydi ystyr Tsu, a Chu ydi pêl. Roedd hyn yn rhan o ymarferiadau milwyr China yn y dyddiau cynnar.

Coeliwch neu beidio, dair mil o flynyddoedd cyn Crist roeddwn nhw'n bwyta riwbob yn China. Mae un person o bob pedwar yn y byd 'ma yn Sieiniad. Yr enw mwya cyffredin yno ydi Chang, Wang a Li. A finna wedi cael ar ddeall mai Pêl Ping Pong oedd o.

Mae'n arferiad ganddon ni i wisgo du i fynd i angladdau. Gwisgo gwyn ma nhw yn China, ond eto o China y daw Indian Ink. Doedden nhw ddim yn genedl ramantus iawn, byth yn arfer cusanu, nes i'r Gorllewin gyflwyno'r arferiad, dwy ddyfodiad y ffilmiau o bosibl. Ond tydyn nhw hyd yn oed heddiw ddim yn or-hoff o'r arferiad o gusanu.

Beth arall sydd i'w ddweud am China? Wel, nhw oedd y cynta i ddefnyddio papur wal, a ma nhw wedi gwirioni ar gasglu stampiau. Darganfuwyd y 'speedometer' cynta yno mor bell yn ôl â'r flwyddyn 1027, ac yno hefyd y darganfuwyd y cardiau chwarae cynta (y pac cardiau) yn y flwyddyn 1120, ac roeddwn nhw yn defnyddio profion bysedd yno (fingerprints) mor bell yn ôl â'r flwyddyn 1700.

A choeliwch neu beidio, erbyn i chi ddeffro bore fory, mi fydd 'na ddeuddeng mil ar hugain yn fwy o fabis wedi cael eu geni yn China.

Na, nid y Wal Fawr ydi'r unig un o ryfeddodau China.

Tan y Clogwyn

*Bu rai hefyd nad oes coffa amdanynt...
Apocryffa.*

Ar lethrau serth Elidir
mae rhwyllwaith walia' sych,
ymgripiant tua'r copa -
'rhen werin ynt - mewn drych,

gwythiennau - fel trwy freichiau'r
chwarelwyr byr eu rhawd,
drwy'r dydd yn cwffio'r mynydd
i'r nos - eu cramen dlawd.

Di-gorn, y bonc a'r siediau...
tai ha' tyddynnod mwy,
di-enw'r cofadeiliau
ond testun trem ... neu ddwy!

NORMAN CLOSS, FACH-WEN

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETH. Daeth y newydd trist am ymadawiad sydyn Ivor Evans, Pant y Buarth, ar Fedi 25ain yn 65 mlwydd oed. Roedd yn hanu o un o deuluoedd hynaf y pentref a chwith yw ei golli gan ei frodyr, ei chwiorydd a'i berthnasau oll. Roedd yn gymeriad poblogaidd a chymeradwy gan ei ffrindiau a'i gyd-weithwyr dros y blynyddoedd. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y cartref ac yna yn dilyn ym mynwent y Santes Helen, Penisarwaun.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED
Nos Iau, Hydref 21ain daeth aelodau'r gangen ynghyd i'w cyfarfod yn y Caban.

'Ffotograffiaeth Eryri a'r Cyffiniau' oedd testun y noson dan ofal Mr P Algeiri a Delyth. Dangoswyd golygfeydd godidog o Ddyffryn Ogwen, Gerddi Bodnant, Y Wern, arfordir, cestyll a phontydd Gogledd Cymru a wethfawrogwyd yn fawr

gan bawb oedd yn bresennol.
YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. I gloi gweithgareddau'r tymor cafwyd ymweliad pleserus â Chanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn. Yn ffodus roedd y tywydd yn hynod ffafriol a'r haul yn gwenu. Cafodd pawb gyfle i ymweld â'r gwahanol safleoedd yn y Ganolfan a gweld llawer o ddatblygiadau ers pan ymwelodd y Gymdeithas a'r Ganolfan bron i ugain mlynedd yn ôl. Mwynhawyd lluniaeth yn yr awyr agored i gloi prynhawn hyfryd. Mae ein diolch yn ddiffuant i Dafydd Ellis, Gweledfa, am drefnu'r ymweliad a'r holl gyfarfodydd a fwynhawyd eleni.

OEDFA DDIOLOCH. A thymor yr hydref gyda ni unwaith eto a'r Wyl Ddiolchgarwch yn ei sgil, cynhaliwyd oedfa arbennig nos Sul, Hydref 17eg. Roedd y gwasanaeth dan ofal Y Parch Ddr Elwyn Richards, Caernarfon, a chafwyd arweiniad a neges rymus ganddo i ddathlu ein gwyl o ddiolchgarwch.

OEDFAON TACHWEDD

- 7 am 10.00: Parch Geraint Hughes, Bethesda
- 14 am 2.00: Parch Gwenda Richards, Caernarfon
- 21 am 5.30: Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan
- 28 am 5.30: Parch Marcus Wyn Robinson, Bethel Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

AR RENT

Tŷ dwy lofft ar Ffordd yr Orsaf Llanrug
£450 y mis
Cysylltwch ar:
07747 6055 76



Blodau Lieneke

Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau

Cae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 551 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

CD NEWYDD
Annette Bryn Parri - 'Myfyrdod'
rhif catalog ARAN403, Dyddiad ryddhau - 01/11/10
Cerddoriaeth addas ar gyfer gweithgareddau megis iachau, myfyrdod, ac ymlacio gan y pianydd a'r gyfansoddwraig amryddawn. Catrin Rhys: 01286 831346

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant mis Hydref a'r enillwyr lwcus oedd: (144) David Phillips, 7 Tai Arthur; (127) Gethin Green, Tan y Coed. Gobeithio bod y Catalog Webb Ivory wedi mynd o law i law yn dda gan fod Phyllis angen yr archebion erbyn diwedd mis Hydref. Diolchir i bawb am eich cydweithrediad. Y mae llyfrau Raffl ar gael gan aelodau'r Pwyllgor, 25c y tocyn neu 4 am £1. Fe'i tynnir yn y Noson Wasael a gynhelir nos Iau, 20 Rhagfyr, yn y Neuadd Gymuned. Croeso cynnes i bawb ddod i ddathlu'r Wyl.

PWYLLGOR URDD ERYRI 2012, Brynrefail a Phenisarwaun. Y mae'r ymateb i'r llythyrau nawdd yn galonogol iawn a diolchir i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael hyd yma.

LLONGYFARCHIADAU. Daeth llawenydd mawr i aelwyd Tawelfa wedi eu profedigaethau llym yn ddiweddar. Ganwyd merch fach i Laura ac Iwan - dyma'r chweched wyres fach i Dic a Myfanwy. Pob bendith i chwi oll fel teulu.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion anwylaf at y rhai ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Deallir fod John Eifion yn gwella wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Cofion annwyl atat, Eifion.

CYDYMDEIMLO. Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â Gwenda a Victor Jones a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli brawd i Gwenda, sef Eric Wyn Jones, 89 Tre'r Gof, Caernarfon ac yntau ond yn 63 mlwydd oed. Fe'i cofir fel brawd, brawd-ynghyfraith hoffus ac ewythr annwyl i Carolyn a Martin, Delwyn, Arwel a Gemma, Marc, Tania a Cadi.

DIOLCH. Dymuna Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa, ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau yn dilyn eu colled o

golli mam Dic a mam Myfanwy, dwy nain hoffus i'w wyresau a'u wyrion a'r gorwyresau a'r gorwyrion.

YSGOL SUL BOSRA. Rydym mor falch o weld y plant mor ffyddlon eto'r tymor hwn - yn enwedig y rhai sydd bellach yn mynychu Ysgol Brynrefail ac yn dal i ddod atom yn gyson. Y maent yn gaffaeliad mawr i'r athrawon - yn enwedig gyda gwaith llaw hefo'r rhai iau. Trefnir Trip ar Drên Bach Llyn Padarn o gwmpas y Nadolig i weld Siôn Corn ac y mae Fiona, yn garedig iawn, yn barod i wneud y trefniadau. Bydd mwy o fanylion am hyn yn y rhifyn nesaf.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus nos Iau, 4 Tachwedd, yn y Neuadd Gymuned am 7.00 o'r gloch i drafod dyfodol yr Eisteddfod Bentref. Taer erfynnir arnoch chwi, rieni ifanc y pentref, i fynychu'r cyfarfod er budd dyfodol yr eisteddfod hon ac er budd eich plant.

EGLWYS SANTES HELEN. Fore Sul, 17 Hydref, daeth cynulleidfada deilwng iawn i'r Gwasanaeth Diolchgarwch. Diolchir i'r aelodau am eu gwaith canmoladwy o addurno'r Eglwys mor fendigedig.

Gwasanaethwyd y Cymun Bendigaid. Am 5.00 o'r gloch estynnwyd croeso i'r pregethwr gwadd, sef Y Parch John Matthews, Ficer Llandygai. Nos Lun, cynhaliwyd Ffair Ddiolchgarwch yn y Neuadd a diolchir i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd.

PLYGU'R ECO. Dymunir diolch i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd i blygu'r Eco. Diolch eto i'r ffyddloniaid am eu gwaith caled ac i Marian am y rhwymo. Gorffennwyd y plygu yn rhwydd erbyn 6.00 o'r gloch. Diolch.



PWY YDY PWY?

Dosbarth Ysgol Sul Eglwys

Santes Helen, Penisarwaun. Anfonwyd y llun hwn gan Mr Evie Jones, Bryntirion a'i chwiorydd. Tybed a all unrhyw un olrhain enwau'r aelodau ffyddlon o Ysgol Sul Eglwys Santes Helen? Gellir anfon eich ymateb i'r Gohebydd Pentref neu i Mr Evie Jones, 3 Bryntirion.

ELUSEN ACHUB Y PLANT. Mae mudiad cenedlaethol Merched y Wawr yn gofyn yn garedig am i chwi gasglu hen ffonau symudol a chetris inc fel y gall 'Achub y Plant' eu hailgylchu i godi arian i helpu plant ledled y byd. Gellir casglu mwy o ffonau symudol a chetris inc drwy'r ysgolion lleol neu'r gweithleoedd i gefnogi'r ymgyrch er mwyn achub bywydau plant. Os oes gennych ddiddordeb i ymuno â'r ymgyrch yma ym Mhenisarwaun, buasai Eurgain Haf, Gohebydd Cyhoeddus rwydd yr elusen yma yng Nghymru yn hynod o falch o'ch cydweithrediad. Gellir anfon y ffonau symudol a'r cetris inc i Ann Ifans, Sycharth, Bryn Eglwys. Diolch o galon.

DIOLCH. Dymuna Selwyn, Beryl, Gwenda a'r teulu oll ddatgan eu diolchgarwch diffuant i bawb am eu caredigrwydd yn eu colled fawr o golli eu brawd annwyl, Bryngwyn. Diolchir am y llu cardiau, galwadau ffôn a rhoddion, ac am bresenoldeb pob un ohonoch yn ei angladd. Bu hyn o gysur mawr i ni fel teulu ac yn dyst enfawr o boblogrwydd Bryn.

CRONFA PENSIYNWYR. *Pêl Bonws Loteri.* Enillydd mis Medi oedd Mrs Kate Rosser, 5 Llys y Gwynt gyda Rhif 5. Llongyfarchiadau! *Cinio Nadolig y Pensiynwyr.* Eleni byddwn yn mynd i westy'r 'George' yn Llandudno dydd Sadwrn, 11 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn am 10.30 o'r gloch a bydd cyfle i wneud ychydig o siopa ar ôl cyrraedd

ac yna bydd y bws yn cludo pawb i'r gwesty am ginio Nadolig erbyn 1.45 o'r gloch. Enwau i Mrs Janet Ash, 'Commercial' (871265) cyn gynted â phosibl os gwelwch yn dda.

Noson Bingo. Diolch i bawb a gefnogodd y Bingo nos Wener, 22 Hydref. Bydd yr elw yn mynd tuag at gostau cinio 'Dolig y pensiynwyr'.

YR YSGOL GYMUNED.

Myfyrwyr. Mae Lisa Sturrs o Brifysgol Bangor a Dewi Jones o Hyfforddiant Gwynedd yn treulio cyfnod yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Urdd. Bydd cyfarfodydd gweithgareddau'r Urdd yn cychwyn yn yr ysgol ar nos Lun, 8 Tachwedd, rhwng 3.15 a 4.15 o'r gloch.

Gwasanaeth Boreol. Croesawyd Mr Andrew Settatee yma bore dydd Llun, 4 Hydref, i gynnal y gwasanaeth.

Gweithdy Cerdd. Treuliodd Miss Caryl Hughes, sydd yn gantores broffesiynol amser gyda disgyblion CA2 bore dydd Gwener, 8 Hydref. Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithdy a'r profiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod yma.

Gwaith Maes. Treuliodd Bl 5 a 6 amser yn astudio'r Foryd yng Nghaernarfon bore dydd Mercher, 13 Hydref.

Ymweliad Addysgol. Fel rhan o'u gwaith thema 'Trychfilod' bu dosbarthiadau Derbyn, 1 a 2 yn ymweld â Pili Palas dydd Mawrth, 19 Hydref.

Disgo Calan Gaeaf. Cynhaliwyd noson disgo yn y Neuadd Gymuned nos Fercher, 20 Hydref o 6.30 i 7.30 o'r gloch. Diolch i'r 'Cyfeillion' am drefnu'r noson yma ar gyfer y plant.

Tynnu Lluniau. Bydd Mr Gwynant Parri yma bore dydd Mawrth, 9 Tachwedd, i dynnu lluniau'r plant. Mae croeso i unrhyw blentyn sydd ddim yn ddisgybl yn yr ysgol alw draw yn ystod y bore.

Noson Agored. Cynhelir Noson Agored nos Fercher, 16 Tachwedd.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

CHWILOTA

DARGANFOD DWY GARREG



Soniais yn y rhifyn diwethaf fod Gareth Roberts wedi anfon nodyn i mi yn dweud iddo ddarganfod y garreg hetar ar Ros y Marchlyn. Dyma'r garreg a ddefnyddid ers talwm i rannu dŵr afon Marchlyn Mawr fel bo'i hanner yn llifo i blwyf Llandegai i fwydo'r Felin Hen, a'r hanner arall yn cael ei droi i lawr y llethrau heibio'r Beran i'r corsydd o amgylch Ffynnon Gegin Arthur er mwyn sicrhau fod cyflenwad dŵr yn afon Cegin ar gyfer Melin Pentir. O astudio'r dirwedd ar Ros y Marchlyn heddiw, mae'n anodd iawn credu fod y dŵr ar un adeg yn cyrraedd yr un o'r ddwy felin. Ond cymaint oedd gwerth y dŵr hwnnw ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel yr aethpwyd i gyfraith ynglŷn ag ef. Adroddwyd yr hanes mewn rhifynnau cynharach o'r 'Eco'.

Yn dilyn yr achos llys, cerfiwyd y llythrennau LBB ar y garreg i ddynodi fod Esgob Bangor (Lord Bishop of Bangor) yn cadarnhau mai dyma'r terfyn rhwng y ddau blwyf. Yn llawer diweddarach yr adeiladwyd y wal gerrig sy'n rhedeg ar draws y rhos yr holl ffordd i fyny'r llethrau am Lyn Marchlyn. Ac ym môn y wal gerrig honno y daeth Gareth o hyd i'r garreg derfyn, gydag enwau'r ddau blwyf wedi eu cerfio arni yn ddigon cyntefig – LLANDUGAY a LLANDDINIOLAN. Roedd cerrig eraill yn dynodi'r terfyn ar y rhostir hefyd; un ohonynt yn cael ei galw yn Garreg Gwddw Ceffyl oherwydd ei ffurf. Bydd angen taith arall i chwilo'ta am honno!


Ond beth am y Garreg Hetar? Roedd honno'n cael ei gosod yng ngwely'r afon ac yn cael ei

hail-osod bob blwyddyn pan fyddai trigolion y ddau blwyf yn cerdded y terfynau. Roedd hi'n amlwg felly fod y garreg yn ddigon mawr a thrwm i aros yn ei lle am flwyddyn er mwyn hollti dŵr yr afon. Ond doedd hi ddim yn rhy drwm i allu ei symud. Ac yr oedd digon o gerrig mân a graean yng ngwely'r afon i fedru llithro'r garreg hetar drostynt.

Erbyn heddiw mae cwrs yr afon wedi newid, gyda ffosydd sychion yma ac acw ar y rhostir lle'r arferai'r afon lifo ar un cyfnod. Bu'r ddau ohonom yn chwilio'n ddyfal mor agos i'r wal gerrig â phosib er mwyn dod o hyd i'r garreg, ac o'r diwedd, daethpwyd o hyd i garreg fawr siâp hetar ym môn y wal ond hefyd yng ngwely'r afon, ble roedd honno'n llifo o dan y wal. O astudio'r llun ohoni, gallwch weld fod ei blaen yn bigfain fel hetar, a phe bai ei thin yn cael ei symud, gallasai droi'r dŵr yn yr afon i'r naill du. Yn anffodus, er turio a chlririo tywyrch a brwyn o'i chwmpas, doedd y llythrennau LBB ddim i'w gweld. Ond, wrth gwrs, mae'n bosibl mai ar ben y garreg y naddwyd y rheini, ac y mae pen y garreg bellach o dan ddwy neu dair troedfedd o wal gerrig!

Ond mae'r ddau ohonom yn eithaf cytûn mai hon yw'r garreg hetar. Ac os oes rhywun ohonoch am ein gwrthbrofi, yna rhaid i chwi gael caniatâd perchennog y tir i ddymchwel y wal er mwyn chwilio am y llythrennau LBB – a'i hail-godi wedyn ar ôl darganfod (neu fethu) y llythrennau!

Daeth hefyd lun arall sydd wedi ei dynnu yn uwch i fyny wal y mynydd yn dangos siâp tebyg i dŵr. Mae peth dirgelwch ynglŷn â beth yn union yw hwn.



Y Garreg Hetar



Y Garreg Derfyn

Tybed a allai fod yn gwt dal llwynog? Adroddir am hanes dal llwynogod ar y tiroedd uchel hyn yn y traethodau ar Waen Gynfi. Oes rhywun all gynnig esboniad?

Tai Castell, Deiniolen

Gan Alun Williams o Ddinbych y daeth cais yn holi am leoliad Castle Street a Castle Buildings yn Neiniolen. Hyd y gwn i does dim un lle o'r enw hwn yn Neiniolen heddiw, ond y mae yno Dai Castell. Tybed ai'r un lle ydynt?

O astudio'r Cyfrifiadau fel welir fod Castle Buildings yn Ebenezer yn 1881 a Castle Street yn 1891. Roedd wedi Cymreigio cryn dipyn erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf ac, yn ôl Cyfrifiad 1901, Tai Castell sydd yno. Tri o dai yn unig oedd yno mae'n debyg. Ar gyfrifiad 1881 maent yn ymddangos rhwng y Stryd Fawr a Jervis Street, ac y mae honno wedi diflannu erbyn hyn hefyd. Tri o dai sydd yno yn

1891 hefyd, a dim ond tri o dai sydd yn Jervis Street cyn symud ymlaen i Baptist Street a Thai Gerddi (neu Garden Street yn ôl cyfrifiadau cynharach). Ond pam rhoi enw mor grand ar dri o dai yn swatio rhywle tu cefn i'r Stryd Fawr? A phwy tybed oedd Jervis? Er chwilio ar Fapiau O.S. 1889, nid yw'r strydoedd hyn yn cael eu henwi.

Chwilio mae Alun Williams am deulu oedd yn byw yn Ebenezer yn ystod y cyfnod hwn, sef David Hughes, mwynwr copr a'i wraig, Catherine oedd yn byw yn Castle Buildings. Mae Catherine yn disgrifio'i hun fel bydwraig. Bu nifer o'u plant yn byw yn Ebenezer hefyd: mab o'r enw Griffith, merch o'r enw Margaret a briododd Robert Edwards a byw yn Garden Street, a merch arall o'r enw Jane. Tybir fod un o'r merched wedi bod yn forwyn yn y King's Head, Clwt y Bont. Oes rhai o'u disgynyddion yn parhau yn yr ardal heddiw? Gallai nifer ohonynt gario'r enw 'Rawson' gan mai dyna oedd enw bedydd Catherine y fydwraig.

Rhowch wybod am y teulu neu am y tai.

Bank Place, Deiniolen

Daeth cais hefyd am wybodaeth ynglŷn â lle o'r enw hwn yn Neiniolen. Unwaith eto, anfonwch i mewn os gwyddoch y lleoliad.

Alffabet Cheini

Maddeuwch y sgwennu ffonetig, ond cais sydd yma gan Duncan Brown o'r Waunfawr ynglŷn â rhigwm o fath a arferai gael ei lafar-ganu yn Ysgol Waunfawr ers talwm. Fel hyn y byddai'r chwarae geiriol yn cychwyn: "Wyt ti'n gwybod yr



RHEILFFORDD LLYN PADARN

POBLOGAIDD YN 2009 HELFA CALAN

Hanner tymor yr Hydref



Mwynhewch daith ofnus drwy goedwig y gwrachod a darganfod gwahanol ysbrydion ar hyd y daith.

Trenau'n ddyddiol o 11eg y bore tan 2.45 y prynhawn



Prisiau arferol
Tocynnau teulu ar gael

Caffi a Siop ar agor

Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk 01286 870549

PANED AM DDIM!

Hoffem gynnig paned o de neu goffi am ddim i ddau. Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw dangos yr hysbyseb hwn yn y caffi. (yn ddilys tan 30.10.10)

Mae Sion Corn yn ei ôl!!

Mwynhewch daith fer ar drên arbennig Sion Corn i lecyn hudolus ger y llyn. Anhrefnion i'r plant a mins pei a diod tymhorol i'r oedolion.

Rhagfyr 5ed, 11eg/12fed, 18ed/19eg
Oedolion a phlant o £7.00
(plant o dan dair oed o £3.00)

Rhaid archebu o flaen llaw



CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

alfabet Cheini?" A deuai'r ateb yn glyfar-glyfar, gan lafar-ganu: "Wrth gwrs, dyma hi: a-ra racarâ raca-raca-rwni rwni-pwni ompom-pani alawalaw sga Chinese Chinkee." Ac fel y dywed Duncan, byddai hyn yn wleidyddol anghywir erbyn heddiw! Canwch y cyfan allan yn uchel, ac mae'n swno'n llawer gwell nac o'i ddarllen.

Dywed Duncan fod ei chwaer, sydd bum mlynedd yn hyn, hefyd yn cofio llafar-ganu'r rhigwm rhyfedd. Oes rhywrai eraill o gyn-ddisgyblion Ysgol Waunfawr yn cofio'i ganu, neu a oes fersiwn wahanol ohono yn perthyn i bentrefi eraill y fro?

Holi mae hefyd am gêm o'r enw 'chwarae lws' neu 'tic chaen'. O ble daeth yr enw 'lws' tybed, a beth yn hollol oedd y gêm?

Lluniau Llanrug

Daeth mwy o hen luniau am bentref ac ardal Llanrug i'r amlwg yn ddiweddar, a dangosir un ohonynt yn y rhifyn hwn. Y gobaith yw dangos y gweddill dros ddau rifyn nesaf yr 'Eco' er

mwyn ceisio darganfod enwau pawb yn y lluniau a hefyd ddarganfod yr achlysuron a'r dyddiadau'n gysylltiedig â hwy. Bydd y lluniau, maes o law, yn cael eu trosglwyddo i ofal diogel yr Archifdy yng Nghaernarfon.

Ymateb i lun yn rhifyn Medi

Fy mam, Mrs Eirwen Jones, Crawia, yw'r un ar y dde yn gafael yn y gadair. Bu'n coginio yn yr Ysgol Gynradd Llanrug am 22 o flynyddoedd. Y lafar ei gliniau ar y chwith yw Mrs Gaynor Williams, Crawia, (mam Nora, Len a Gwynifer), y 4edd yw Mrs Jones (mam Gareth a Catherine Jones), 5ed Mrs Williams, Brynafon Teras, Crawia, (mam Nora Wyn a June). Credaf mai'r ail o'r chwith, rhes 2 yw Mrs Williams, Lôn Las, Crawia.

Efallai mai WI Llanrug yw'r llun, achos nid pawb oedd yn perthyn i'r Capel Mawr. Cefais bleser o edrych arno achos cofiaf nhw bron i gyd.

BRENDA JONES, CRAWIA
Diolch hefyd i Morfudd Jones, Llanrug am anfon mwy o

Aelodau Ysgol Sul Capel Mawr? Pryd?



wybodaeth am yr un llun. Yn ôl yr enwau a anfonodd hithau, mae'n amlwg yn cytuno â'r hyn a nododd Brenda Jones yn ei llythyr uchod. Diolch i'r ddwy ohonoch am ymateb, ond rwy'n amau eich bod ill dwy yn rhy ifanc i roi enwau i'r llun sy'n ymddangos y mis hwn!

Cynhadledd Enwau Lleoedd

Cynhelir y gynhadledd ym Mhlas Tan y Bwlch ar yr 20fed o Dachwedd. Deallaf ei bod yn dal yn bosibl archebu lle drwy

ffonio Twm Elias yn y Plas. Mae diwrnod llawn o weithgaredd a siaradwyr gwadd wedi ei baratoi. Mwy o'r hanes y tro nesaf.

Os oes unrhyw sylw ynglŷn â hanes bro'r 'Eco' gennych, neu unrhyw ymholiad, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DIOLCH. Dymuna Mr Andrew Griffiths, Tan y Bwlch, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a dymuniadau da a gafodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 95 yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Alwyn Jones, 5 Bro Elidir, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Arwyn, y mab, a Kareena, Penmaenmawr wedi dod yn dad a mam ar 13 o Fedi yn Ysbyty Gwynedd pan anwyd mab iddynt, Guto Rhys. Gobeithio y bydd iddynt gael nerth ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel i fagu y bychan.

YN YR YSBYTY. Drwg gennym ddeall fod Mrs Megan Morris, Minffordd, wedi syrthio yn ei chartref a thorri ei chlun. Cafodd

lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar hyn o bryd mae yn Ysbyty Eryri yng Nghaernarfon ac yn gwella'n dda. Gobeithiwn eich gweld adref yn reit fuan.

Hefyd, mae Sioned Mair Phillips, 3 Maes Eilian, wedi bod yn yr ysbyty yn Lerpwl ac yn awr mae yn ôl yn Ysbyty Gwynedd Bangor. Brysia wella, Sioned.

CARTREFU YNG NGHAEARNARFON. Drwg gennym ddeall fod Mr Andrew Griffiths, Tan y Bwlch, wedi gorfod gadael ei gartref am gyfnod i aros ym Mhlas Maesincla, Caernarfon. Gobeithio, Andrew, y cawn eich gweld wedi gwella yn lled fuan ac y cawn eich gweld adref yn ôl unwaith eto. Yr ydym yn eich colli am sgwrs a hwyl bach diniwed.

Clwb Orwig

Cyfarfu aelodau Clwb Orwig yng Nghanolfan Mynydd Dinorwig i fwynhau Cinio'r Cynhaef ym mis Hydref. Yr un diwrnod hefyd bu'r Clwb yn dathlu ei ddegfed penblwydd. Cyflwynwyd teisen benblwydd arbennig, gyda llun o Blue Peris arni, a oedd yn rhodd gan Mrs Sally Brennan.

Diolchwyr i staff y Ganolfan gan Mr Dennis Glass am baratoi cinio ardderchog ar ein cyfer, ac am eu croeso a'u cymorth i'r aelodau dros y deng mlynedd diwethaf.

Llongyfarchodd Mrs Betty Bower yr aelodau ar eu hymdrechion dros y ddeng mlynedd diwethaf yn codi dros £4,000 at wahaniol achosion dyngarol: cerdded milltir i McMillan, Cymdeithas Osteoporosis, Ysgol Pendalar,

Ambiwlans Awyr, Meddygfa Deiniolen, Cymdeithas Strôc a Lupus. Ond yr orchwyl fwyaf, mae'n siwr, oedd codi'r Gofeb i'r cyn-chwarelwyr. Yr oedd yn ddiwrnod arbennig i'r ardal gyfan pan gafodd ei dad-orchuddio, ac erbyn hyn, mae gweld y Cennin Pedr, a blannwyd gan Mr Terry Taylor, yn bleser i'r llygad. Deil yr aelodau i gasglu tuag at y gwaith a wneir gan Martin o'i chynnal a chadw'r lle'n daclus.

Anfonwyd anrhegion i Mrs Megan Morris, Mrs Ann Lo a Mr Andrew Griffiths, gan ddymuno gwellad buan i'r tri. Enillwyd y basgedi ffrwythau a llysiau (rhoddion gan Mrs Margaret Faulkner a Mrs Betty Bower) gan Mrs Joan Glass, Mrs Frances Hoyle a Mr Rex Faulkner, a'r eitemau eraill gan Mrs Elizabeth Jones a Miss Morfudd Jones.

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfa Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



BOCS O
FFRWYTHAU A LLUSIAU

£10. Wedi ei ddanfôn
AM DDIM yn lleol

ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 079990926484

YSGOL BRYNREFAIL



PÊL-RWYD DAN 14 TÎM ERYRI

O'r chwith: Manon Thomas, Ella Owen.

Ar ôl treialon yn Ysgol Maesglas, gydag ysgolion Brynrefail, Syr Huw, Tryfan, St Gerrard ac eraill yn bresennol, dewiswyd y tair uchod i fod yn aelodau o dîm Pêl-rwyd Eryri eleni. Y mae timau Eryri yn cynrychioli Conwy, Gwynedd a Môn ac o hyn ymlaen bydd practisio dygn a gemau cyfeillgar cyn chwarae eu gêm gyntaf yn erbyn genod Sir Powys yng Nghynghrair Pêl-rwyd Gogledd Cymru.

Genod ni: da de



PÊL-RWYD DAN 16 TÎM ERYRI

O'r chwith: Lois Jones, Elaine Roberts, Azwel Hughes

Ar ôl treialon yn Ysgol Maesglas, gydag ysgolion Brynrefail, Syr Huw, Tryfan, St Gerrard ac eraill yn bresennol, dewiswyd y tair uchod i fod yn aelodau o dîm Pêl-Rwyd Eryri eleni. Y mae timau Eryri yn cynrychioli Conwy, Gwynedd a Môn ac o hyn ymlaen bydd practisio dygn a gemau cyfeillgar cyn chwarae eu gêm gyntaf yn yng Nghynghrair Pêl-rwyd Gogledd Cymru.

Genod ni - da de



PÊL-RWYD dan 18 TÎM ERYRI

O'r chwith: Gretta Jams, Wena Haf Green, Heledd Roberts

Ar ôl treialon yn Ysgol Maesglas, gydag ysgolion Brynrefail, Syr Huw, Tryfan, St Gerrard ac eraill yn bresennol, dewiswyd y tair uchod i fod yn aelodau o dîm Pêl-rwyd Eryri eleni. Y mae timau Eryri yn cynrychioli Conwy, Gwynedd a Môn ac o hyn ymlaen bydd practisio dygn a gemau cyfeillgar cyn chwarae eu gêm gyntaf yn erbyn genod Sir Powys yng Nghynghrair Pêl-rwyd Gogledd Cymru.

ARDDANGOSFA LYFRAU

Ar ddydd Llun 4ydd Hydref 2010 fe gynhaliwyd Arddangosfa Lyfrau yn neuadd Ysgol Brynrefail. Yr oedd chwe gwasg wedi cytuno i fod yn bresennol ac arddangos:

Curiad (Penygroes) cwmni sy'n gyhoeddwr cerddoriaeth o safon.

Gwasg Carreg Gwalch (Pwllheli) - cyhoeddwr dewis eang o lyfrau Cymraeg a Saesneg.

Canolfan Astudiaethau Addysg (Aberystwyth) - asiant gyhoeddi addysgol sy'n cynhyrchu adnoddau dysgu mewn ystod eang o bynciau.

Atebol (Aberystwyth) - adnoddau dysgu ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Aber Publishing (Abergele) - cwmni sydd wedi datblygu canllawiau astudio i fyfyrwyr a Palas Print (Caernarfon) siop leol sy'n gwerthu ystod eang o lyfrau cyfoes.

Cafodd holl ddisgyblion a staff yr Ysgol eu cyfle i fynychu'r arddangosfa ac fe gadwyd yr arddangosfa ar agor tan bump o'r gloch er mwyn rhoi cyfle i'n cyfeillion o ysgolion cynradd y dalgylch ymuno â ni ar ôl eu diwrnod gwaith. Fel y gwelwch o'r lluniau yr oedd cryn ddiddordeb yn y llyfrau.



FFORWM DISGYBLION

Pob hanner tymor y mae'r Fforwm Disgyblion yn ymgynnull lle y mae cynrychiolwyr y saith blwyddyn o ddisgyblion yn cael cyfle i drafod materion sydd un ai yn ymwneud gyda chalendr yr Ysgol, e.e. trefniadau diwrnod trwyn coch, neu i drafod materion sydd yn bwysig i'r disgyblion eu hunain. Eleni bydd Rebecca Ellis a Ieuan Davies o flwyddyn saith yn ymuno gyda'r fforwm am y tro cyntaf a hwythau yn ddisgyblion newydd i'r Ysgol.

Dewiswyd y ddau, fel dewiswyd pawb arall ar y fforwm, trwy i'w cyd ddisgyblion yn eu dosbarth a'u blwyddyn Ysgol bleidleisio amdanynt. Caiff y fforwm gyfle i gyfarfod a thrafod gyda'r pennaeth, Mr Eifion Jones, a'i uwch dîm rheoli a, gyda'i gilydd, yn staff a disgyblion, gytuno ar drefniadau megis pa elusennau fydd yn manteisio o gefnogaeth yr ysgol yn ystod y flwyddyn neu pa reolau'r Ysgol y dylid eu trafod a'u cryfhau neu eu newid yn sgil newidiadau cyfoes ym myd addysg.

Sbotolau Niamh L. Jones



Mae Niamh newydd ddechrau ym mlwyddyn 7 ym Mrynrefail ond y mae hi eisoes wedi ennill llwyth o gystadlaethau neidio ceffylau. Fe neidiodd ein gohebydd i gael sgwrs gyda hi:

Ers pryd wyt ti di bod yn reidio ceffylau?

Wel dwi'n lwcus oherwydd mae 'na geffylau adref ac mi ddechreuais eu marchoga pan o'n i'n ddwy flwydd oed gyda help Mam a Dad.

Faint o geffylau sydd acw

erbyn hyn?

Wel adre mae 'na lwyth o stablau ac ar hyn o bryd mae gennym 7 ceffyl.

A dy ffefryn?

Wel Dusty, ceffyl brown tywyll yw fy ffefryn i reidio arno ond dwi'n defnyddio William, ceffyl brown arall er mwyn neidio.

Pryd wnest ti ddechrau neidio?

Wel, pan oeddwn yn naw oed ac erbyn hynny yr oeddwn yn aelod o gangen Gwynedd o'r 'Pony Club'.

Yn y llun mae gen ti nifer o fedalau a roséts o ble gest ti nhw?

Dim ond nifer bach sydd yn y darlun ond adref mae gen i lwythi mwy a chwpanau hefyd.

Dwi'n cystadlu yng ngornestau'r 'Pony Club' ar hyd a lled Gwynedd. Enillais y gwpan mewn cystadleuaeth yn Rhiwlas yn erbyn eraill yr un oed a mi ac mae'r rosét las yn y llun yn dangos fy mod wedi ennill cystadleuaeth arall gyda'r 'Pony Club'.

NAWDD MAGNOX NORTH



O drefniant 'Gyrfa Cymru' a dan nawdd gan Magnox North, sy'n cynrychioli Gorsafodd Niwclear Wylfa a Thrawsfynydd, fe dderbyniodd tri disgybl o Ysgol Brynrefail sicciau o £100 yr un.

Yr oedd y nawdd yn agored i

ddisgyblion blwyddyn 12 ond yn gyfyngedig i ddisgyblion sy'n astudio pynciau gwyddonol ac yn ddibynnol ar gais a chyfweliad.

Y disgyblion a noddwyd eleni yw Deian Williams, Manon Grail a Eleri Sweeney, sydd yw gweld yn y lluniau gyda Mr Richard Foxhall, cynrychiolydd Magnox North a Mr Alun Huw Pritchard, Gyrfaedd Cymru.

Yr ydym i gyd yn Ysgol Brynrefail yn ddiolchgar iawn i Gyrfaedd Cymru am eu trefniadau, Manox North am eu haelioni ac, wrth gwrs, wrth ein bodd gyda llwyddiant Deian, Manon ac Eleri.

WYTHNOS PROFIAD GWAITH BLWYDDYN 11

Yn ddiweddar y mae holl ddisgyblion blwyddyn 11 wedi bod yn brysur yn trefnu lleoliadau gwaith gyda chymorth Mr Howyn Jones, Pennaeth Gyrfaedd. Diben y trefniadau hyn yw darparu cyfleoedd dysgu na ellir eu cyflawni ond yn y gweithle a hefyd rhoi cyfle i gyflogwyr ffurfio partneriaeth agosach gyda'r Ysgol a chwarae rhan weithredol yn natblygiad disgyblion yr Ysgol.

Erbyn hyn y mae'r cyfleoedd hyn wedi datblygu mor boblogaidd fel bod disgyblion, nid yn unig yn cymryd mantais o gyfleoedd lleol, ond hefyd yn mynd cyn belled â Manceinion, Llundain a hyd yn oed yr Ysgol Rhyngwladol yn Basle, Y Swisdir, ac Ysgol arall yn Ffrainc.

Mae'r wythnos profiad gwaith ei hun yn cynorthwyo disgyblion i wneud y naid rhwng yr Ysgol a byd gwaith, datblygu sgiliau cyfathrebu a chydweithio, sy'n hanfodol i gyflogwyr y dyfodol.

Y mae holl staff yr Ysgol yn cael cyfle i ymweld â'r disgyblion yn eu lleoliadau gwaith sydd, mae'n debyg, yn agoriad llygad i rhai ohonyn nhw hefyd!

GWEITHGAREDDAU MORWROL

Ar ddechrau mis Hydref fe aeth pob disgybl ym mlwyddyn 9 ar gwrs ar weithgareddau morol ym Mhlas Menai. Dyma bigion o adroddiadau'r disgyblion am yr wythnos a dreuliwyd ar y Fenai a Llyn Padarn:

'Cefais y cyfle ynghyd â 29 o ddisgyblion blwyddyn 9 i wneud gweithgareddau dŵr ym Mhlas Menai ar ddechrau mis Hydref.'

'Bues yn canwio ar y Fenai am bum milltir un diwrnod. Yn ogystal â chanwio ar y Fenai bues i llyn Padarn, Llanberis ac yn "4 mile bridge". Cawsom lawer o hwyl ar Lyn Padarn ac yng ngherrynt "4 mile bridge". Dechreuodd pob bore gyda straffaglu i wisgo'r wisg dŵr pwrpasol a'r rhain yn drewi!'

'Y rhan gorau i mi oedd cael towio ar gefn 'speedboat' a chael mynd o dan y ddwy bont.'

'Cawsom ferch o'r Alban yn ein

dysgu a gyda hi fe fuom yn hwylio ar draws y Fenai.'

'Llwyddodd pawb i basio lefel 2 mewn hwylio a derbyn tystysgrif i dystio hyn.'



'Hoffwn ddiolch i Blas Menai ac i Mr P. Holland am y cyfleu euraidd a'r wythnos wefreiddiol ar y dŵr.'



Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

YSGOL BRYNREFAIL

BOOMERANG!



Ddiwedd Mis Medi ymwelodd cwmni teledu Boomerang â'r ysgol er mwyn dewis carfan o ddisgyblion i ymddangos ar eu rhaglen deledu boblogaidd *Stwnsh Sadwrn*. Cafod y disgyblion gyfle i siarad gyda'r tîm cynhyrchu, Ian Cotterell ac Elen Van Bodegom, gwylio clip

o'r gyfres a sbydu syniadau ar gyfer y rhaglen. Rhaglen fyw yw *Stwnsh Sadwrn* fydd yn cael ei darlledu'n fyw fore Sadwrn o fis Hydref ymlaen. Bydd disgyblion Brynrefail yn ymddangos ddiwedd Mis Hydref - y 23ain neu'r 30ain - felly cofiwch wyllo!!!!

Merched y Wawr yn 'galw' ar bawb i wneud eu 'marc' er mwyn helpu'r plant

Mae mudiad Merched y Wawr ac elusen Achub y Plant wedi lansio ymgyrch arbennig er mwyn helpu'r plant mwyaf difreintiedig ledled y byd a hefyd yma yng Nghymru.

Yn ystod 2010 a 2011 bydd yr aelodau yn annog pawb i gasglu hen ffonau symudol a chetris inc fel y gellir eu hailgylchu i godi arian ar gyfer gwaith yr elusen yn sicrhau fod pob plentyn yn cael pethau sylfaenol fel bwyd maethlon, dŵr glân, gofal iechyd, addysg ac amddiffyniad.

Mae'r Mudiad am gefnogi 'POB UN', ymgyrch ryngwladol fwyaf Achub y Plant i geisio atal wyth miliwn o blant dan bump oed rhag marw yn ddiangen o afiechydon y gellir eu trin yn rhwydd ac yn rhad iawn fel dolur-rhydd, malaria a'r frech ier. Yn yr un modd maent am gefnogi gwaith yr elusen yma yng Nghymru i sicrhau bod y plant tlotaf yn ein cymdeithas yn cael chwarae teg.

Ar gyfartaledd bydd yr elusen yn derbyn £1.00 am bob cetrin inc a £5.00 am bob hen ffôn symudol a fydd yn cael ei ailgylchu.

- Mae cyn lleied â £1 yn gallu prynu 5 pecyn o bast cnau sy'n cynnwys 500 kalori a'r holl faeth sydd ei angen i fwydo plentyn am y dydd.

- Mae £3.00 yn gallu prynu rhwyd mosgito sy'n atal plentyn rhag dal malaria, yr afiechyd sy'n lladd y nifer fwyaf o blant.

- Mae £50 yn gallu prynu Cit

Cymorth Cyntaf i bentref cyfan yn Affrica.

- Mae £500 yn prynu pabell sy'n fan chwarae saff i blant sy'n cael eu dal mewn argyfyngau fel y rhai yn Haiti ac ym Mhacistan yn ddiweddar.

- Mae £5000 yn ddigon i hyffordd dwy fydwraig am flwyddyn.

- Mae £50,000 yn ddigon i adeiladu dwy ysgol newydd yn Liberia.

Lansiwyd yr ymgyrch yn ystod Penwythnos Preswyl Mudiad Merched y Wawr ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan yng nghwmni'r gyflwynwraig Heledd Cynwal sydd yn Llysgennad i Achub y Plant.

Meddai Heledd: 'Fel Llysgennad i Achub y Plant ac fel aelod o Glwb Gwawr Llandeilo wy'n hynod falch fod y ddau fudiad pwysig wedi dod at ei gilydd eleni er mwyn lansio'r ymgyrch yma.'

'Rwy'n fam i dri o blant bach o dan bump oed ac mae clywed yr ystadegau a gwybod bod cymaint o blant bach yn marw yn ddiangen bob blwyddyn yn fy nghyffwrdd i'r byw. Mae cyn lleied â £5 yn gallu mynd ymhell i wneud gwahaniaeth mawr. Felly rwy'n galw ar bawb i fynd ati i roi'r hen ffonau symudol yna sydd wedi eu stwffio i'r drâr a'r cetrin inc yna fyddai fel arall yn mynd i'r bin i aelodau Merched y Wawr ac yn dymuno pob llwyddiant i'r ymgyrch.'

Ychwanegodd Mererid

GWEITHDY DAMWEINIAU CEIR

Wedi ei ysbrydoli gan wir ddigwyddiadau mae'r gweithdy "Ffrindiau Angheuol" yn ddrama sydd, drwy theatr, ffilm ac actio grymus, yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r perygl o fod yn deithiwr mewn car sy'n cael ei yrru gan yrrwr ifanc a dibrofiad.

Y mae Ysgol Brynrefail yn cefnogi unrhyw weithgaredd sydd yn ceisio diogelu ein disgyblion ac fe lwyddodd Mr Howyn Jones, Athro Gyrfaedd, i ddenu'r cwmni i'r Ysgol fel rhan o'u taith

cylch o gwmpas 12 o ysgolion uwchradd gogledd Cymru.

Wedi ei gomisiynu gan "Grŵp Diogelu Ffyrdd Gogledd Cymru" mae'r ddramodig yn taro'n galed ar ddychymyg disgyblion blwyddyn 11 a fydd yn o fuan yn dechrau ar eu gwersi gyrru. Gyda'r neges bod eu diogelwch ar y ffordd yn hanfodol bob amser mae'r ddramodig yn ceisio egluro y bod dewisiadau eraill i'w cael pe baent yn ansicr o drafaelio gyda chyfaill ifanc, sydd yn yrrwr anaeddfed.

LANSIO APÊL "ACHUB Y PLANT"



Heledd Cynwal, Jessica Evans ac Eurgain Haf o Achub y Plant a Mererid Jones, Llywydd Merched y Wawr yn lansio ymgyrch 2010-2011

Jones, Llywydd Merched y Wawr: 'Fel Mudiad i ferched yma yng Nghymru, mae Merched y Wawr yn cwmpasu mamau; neiniau a modrybedd. Mae gennym i gyd gysylltiad â phlant mewn rhyw fodd.'

'Mae'r ystadegau am gyflwr plant yma yng Nghymru ac ar draws y byd yn frawychus, ac rydym fel Mudiad drwy ein hymgyrch i gasglu ffonau symudol a chetris inc o beiriannau argraffu, yn gobeithio y gallwn wneud

gwahaniaeth. Rwy'n cymell pawb i ymuno yn yr ymgyrch - mewn ysgolion, mewn swyddfeydd, mewn ffatrioedd. Peidiwch a thaflu i'r sbwriel ond taflwch i focs Merched y Wawr er mwyn rhoi blwyddyn braf i blentyn bach.'

Am fwy o wybodaeth am sut y gallwch chi helpu, cysylltwch ag Achub y Plant ar 0790 993 7218 e.haf@savethechildren.org.uk neu Swyddfa Merched y Wawr ar 01970 611 661 swyddfa@merchedywawr.com

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!


Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Yng nghyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas y tymor yma, croesawodd y llywydd, Dr. J. Elwyn Hughes, pawb ynghyd, a braf oedd gweld Festri'r Cysegr yn llawn. Roedd y noson yng ngofal Parti Clychau'r Grug, dan arweiniad Glenys Griffiths, a chafwyd noson amrywiol a hwyliog ganddynt wrth iddynt gyflwyno eu heitemau. Bu i'r gynulleidfa gael cyfle hefyd i ymuno gyda'r Parti i ganu rhai caneuon gwerin mewn cyflwyniad oedd yn olrhain hanes alawon gwerin.

Diolchwyd iddynt am noson gartrefol braf i agor gweithgareddau'r Gymdeithas gan Myra Griffith, a diolchwyd hefyd i ferched y Pwyllgor am sicrhau lluniaeth i bawb. Gwyn Hefin Jones, Brynrefail, fydd y gwr gwadd y tro nesaf a hynny yn festri Bethel ar Tachwedd 16eg.

MERCHED Y WAWR. Cawsom gyfarfod difyr iawn nos Fercher, 13 Hydref, pan ddaeth Nia Wyn Williams o Landegfan atom i sgwrsio am hynafolion. Mae Nia yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog ac wedi ymddeol o fod yn ddarlithydd ymarfer corff yn y Coleg Normal. Mae yn ymddiddori ac yn cael pleser mawr mewn pob math o hynafolion.

Diolchodd Gwyneth Jones iddi am noson hynod o ddifyr a chafodd nifer o'r aelodau wybodaeth ac amcan bris am yr amrywiaeth o wrthrychau yr oeddynt wedi dod gyda hwy i'r cyfarfod.

Trafodwyd materion y mudiad gan y Llywydd, Rhian Hughes, ac estynnodd groeso cynnes i un aelod newydd, sef Anwylyd Wynn Jones ac i Joyce ac Edith wrth iddynt ailymuno gyda ni. Anfonwyd cofion a dymuniadau gorau am wellhad buan at Ellen Ellis ar ôl ei damwain a hefyd at Anita, Tŷ'r Ysgol, sydd yn yr ysbyty yn derbyn llawdriniaeth.

Llongyfarchwyd Anest Williams ar dderbyn doethuriaeth a dymunwyd yn dda iddi yn ei swydd yn Ruabon.

Pleser hefyd oedd cael llongyfarch a diolch i Mair Read a Mair Price ar ôl iddynt gerdded dros y mudiad yn Llandudno a chodi £130 tuag at yr Ambiwylans Awyr.

Atgoffwyd yr aelodau am y cwis hwyl cenedlaethol yn y Seiont Manor, Llanrug ar 19 Tachwedd ac a wnaiff pawb sydd eisiau mynd fynd â thaliad am y bwyd, sef £10 i'r trysorydd, Edwina Morris, cyn 1 Tachwedd os gwelwch yn dda.

Arwyddodd nifer dda o'r aelodau y cerdyn Fforch i Fforch,

menter sydd yn cael ei chymradwyo gan Ferched y Wawr ac sydd yn dangos ein hymrwymiad i brynu bwyd a diod gan gynhyrchwyr lleol.

Diolchwyd i Liz Watkins, Anwen Pritchard a Falmi Owen am baratoi y baned ac enillydd y raffl y tro hwn oedd Jen Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf at 10 Tachwedd pan fydd Siwan Haf o gwmni 'bOtwm', Caernarfon, yn arddangos ei chreffft o greu gemwaith allan o fotymau ac offer addas wedi ei ailgylchu.

CLWB BRO BETHEL. Y Prifardd Selwyn Griffith oedd yn llywyddu a chroesawyd pawb ynghyd. Cyfeiriodd at farwolaeth un o'r aelodau, sef Freda Jones, a hysbyswyd yr aelodau fod y swm o £261 wedi ei gasglu o ddrws i ddrws yn ddiweddar a diolchwyd i'r rhai a fu'n curo drysau er budd Age Cern Gwynedd a Môn.

Roedd yn bleser gan y Llywydd gyflwyno'r Gwr gwadd, sef Ellis Wyn o Bodffordd, un a oedd yn gyfaill oes iddo. Wrth ei gyflwyno soniodd am y cyfeillgarwch rhwng y ddau dros gyfnod maith yn enwedig ym myd yr Eisteddfod ac ymfalchiodd yn y ffaith iddo dderbyn, yn haeddiannol iawn, fedal Syr T.H. Parry Williams yn Eisteddfod Cwm Rhymni ym 1990.

'Cymeriadau' oedd testun y sgwrs a bu'n yn siarad yn ddifyr iawn gan ddweud fod cymeriadau wedi bod yn bwysig iawn iddo erioed ac wedi rhoi lliw a llun i gymdeithas. Bu'n rhannu atgofion am gymeriadau lliwgar yn hanes yr Eisteddfodau, ac roedd nifer o'r cymeriadau yn rhai arbennig o ddiddorol, gan gynnwys Gweinidogion a rhai oedd yn barod i ddweud ambell gelwydd golau!

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Myra Griffith am sgwrs

llawn hiwmor ac hefyd am wneud i bawb chwerthin.

Cyn terfynu cafwyd adroddiad gan Jenkin Griffiths am rai o faterion oedd wedi eu trafod yn y Cyfarfod Blynnyddol yn ddiweddar. Diolch i Ann Ellis Williams ac Ivy Wright am ofalu am y baned.

Rhannwyd y taflenni Cinio Nadolig a gofynnir yn garedig i' bawb eu dychwelwyd i Ann Ellis Williams neu Ivy Wright erbyn y cyfarfod nesaf, Tachwedd 2il, pryd bydd Gwyn Hefin Jones, Brynrefail yn dod i annerch.

PWYLLGOR GWEITHGAREDDAU CAPEL CYSEGR. Nos Fercher, Medi 27, yn Festri Capel Cysegr, cynhaliwyd 'antur' gyntaf.

Pwyllgor Gweithgareddau'r Capel, sef cyfarfod i brisio hen bethau o bob math gan arbenigwr yn y maes, Simon Bower o Gwmni Morgan Evans. Mae Simon wedi ymddangos sawl gwaith ar raglenni teledu fel 'Bargain Hunt' a 'Dickinson's Real Deal'.

Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol – ymhell y tu hwnt i ddisgwyliadau unrhyw un! Daeth ugeiniau o bobl ag eitemau o bob math i'w prisio, gan gynnwys llestri, lluniadau, cofroddion, gemwaith, tlysau, medalau, ac ati.

Mae'n amlwg fod y syniad wedi cydio yn nychymyg llawer iawn o bobl ac fe werthwyd yn agos i 250 o docynnau gan 25 o werthwyr dyfal – mor bwysig fu cyfraniad pob un ohonyn nhw! Roedd cyhoeddusrwydd y fenter yn nwylo medrus iawn Merfyn Morris a'r stondinau gwerthu, y cyfrannwyd yn hael tuag atynt gan garedigion yr achos, yng ngofal Manon a Menna Dauncey, Llinos Griffith, Jane Pritchard, ac Ysgrifennydd y Pwyllgor, Gwenan Roberts. Nhw hefyd oedd yn gyfrifol am drefnu'r baned.

Cafwyd cymorth amhrisiadwy gan Gwilym Williams a'r Trysorydd, Phil Druce, a phwysleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor Gweithgareddau, Dr J. Elwyn Hughes, na ellid cael

gwell pwyllgor yn unman – casgliad o bobl weithgar a diwyd, eiddgar i wneud eu gorau – ac yn gwneud y cyfan yn gwbl wirfoddol, yn hwyliog a sirol, heb rwgnach na chwyno.

Gwnaed elw o £711 o bunnau a'r cyfan yn mynd tuag at Gronfa Wal y Capel.

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn mynd ymlaen yn awr i ystyried y gweithgaredd nesaf a chroesewir syniadau ac awgrymiadau, gyda golwg ar roi cyfle i bobl yr ardal gymdeithasu â'i gilydd a dod i 'nabod ei gilydd yn well, yn ogystal â chodi arian at y Capel ac ambell elusen hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu mor gefnogol i waith ac ymdrechion y Pwyllgor Gweithgareddau – Y Gweinidog a'r Blaenoriaid, aelodau Capel Cysegr, a nifer o gyfeillion yn yr ardal a'r tu hwnt.

YSGOL SUL Y CYSEGR. Roedd nifer dda yn bresennol yn yr Oedfa Diolchgarwch yn ddiweddar dan ofal plant yr Ysgol Sul. Bu i'r holl blant gymeryd rhan o gwmpas stori 'Tair Llygoden Fach' a oedd wedi ymgartrefu yn y Capel.

Roedd y plant lleiaf ar eu gorau yn canu 'Byd Duw' ac i gloi cyfraniad y plant bu i bawb ganu 'O Dewch Rhowch Glap'.

Yn dilyn y cyflwyniad braf oedd cael croesawu Dafydd Pritchard, yn wreiddiol o Llanberis ond erbyn hyn wedi dod i fyw i Fethel, a chafwyd ganddo anerchiad pwrpasol ac amserol.

Diolchodd Myfanwy Harper iddo ac i bawb am droi i mewn, i'r holl athrawon am eu cefnogaeth, ac yn arbennig i Rita Williams am baratoi'r cyflwyniad, i'r plant am ddysgu'r gwaith yn raenus iawn, ac i'r rhieni am annog y plant i ddod i'r Ysgol Sul.

ECO'R WYDDFA

Hoffech chi hysbysebu eich cwmni neu ddigwyddiad yn yr Eco? Cysylltwch ag: Eifion Roberts, Llanberis (870740)

Stof Draddodiadol neu FODERN i gynhesu eich tŷ

CYSYLLTWCH Â

fflam .biz

JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

EGLWYS ST GABRIEL.
Cynhaliwyd yr Wyl
Ddiolchgarwch ar ddydd Sul, 3
Hydref.

Yn y bore am 9.30 cawsom
wasanaeth dwyieithog o'r
Cymun Bendigaid gyda'r
Rheithor, Y Parchedig Robert
Townsend, ac yn yr hwyr am 6.00
o'r gloch gan y Parchedig Carol
Roberts, Bangor.

Darllenwyd y llithoedd yn y
ddau wasanaeth gan Dr William
Munroe ac hefyd Dr Munroe
oedd wrth yr organ yn y ddau
wasanaeth.

Dymuna'r Rheithor a'r
Warden ddiolch i bawb am
addurno'r Eglwys mor hardd ac
am y rhoddion o lysiau,
ffrwythau a blodau dros yr wyl.
NOSON BINGO. Nos Lun, 4
Hydref, cynhaliwyd noson o
Bingo yn yr Ysgol Gymuned.
Diolch am y rhoddion ariannol
ac am y rhoddion at y raffl a'r
gwobrau a diolch i bawb am eu
cefnogaeth. Roedd yr elw'n
mynd i Gronfa Eglwys St
Gabriel.

Diolch hefyd i Margaret ac
Ann o Lanberis am alw'r rhifau
ac hefyd i Sioned a Margaret am
werthu'r tocynnau bingo. Diolch
i'r genod te a'r dynion. Diolch o
galon i bawb.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd:
£50: Cynthia, Moranedd, Cwm-
y-glo; £30: Bet Roberts,
Caernarfon; £20: Sharon
Williams; Stampiau Morrisons:
D. Evans, Llanrug; Tocyn Tesco:
Ceinwen Williams, Llanberis;
Worktop Protector: Bryn
(872250); Fas: Marete (880704);
Gwin: Eleri, Deiniolen; Quality
Streets: Glenys, Afon Rhos,
Llanrug; Bocs nwyddau: Wil
(871397); Sieri: Andrea,
Caernarfon; Tocyn cig: Daniel,
Llanrug; Persawr: J. Roberts,
Brynrefail; Gwin: John, Craig y
Don, Cwm-y-glo; Gwin: Seren,
Bod Elan, Cwm-y-glo; Matiau

bwrdd: Avril Jones, Cwm-y-glo;
Bocs o ffrwythau: Nia, Bod Elan,
Cwm-y-glo; Bocs o lysiau: Medi
Jones, Dolafon, Cwm-y-glo;
Bocs o lysiau: Judith, d/o
Moranedd, Cwm-y-glo; Bocs o
ffrwythau: Dorothy Jones, Fron
Gader; Bocs o lysiau: Eurgain,
Caernarfon; Bocs o lysiau: Beryl
Parry, Hebron, Cwm-y-glo;
Geiriadur: Gwen, 2 Maes
Padarn, Llanberis; Gwin: Arfon
(871677); Gwin: Eirwen Evans,
Porthcawl; Gwin: Norman
Rowlands, Cwm-y-glo; Gwin:
Marian Hughes, C.G.; Gwin:
Mrs Jones, Bangor; Gwin:
Delyth Roberts, Deiniolen;
Gwin: Llion Jones, Cwm-y-glo.

Enillwyr y raffl ar y noson
oedd: Clown: Margaret Price,
Llanberis; Sieri: Sioned Jones,
Cwm-y-glo; Siocled: Dorothy
Jones, Fron Gader, Cwm-y-glo.

Enillydd y tocyn pêl-droed
oedd Sharron Vaughn, Pentir.

Diolch o galon i bawb am eich
cefnogaeth a'ch presenoldeb.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein
cofion gan ddymuno gwellhad
buan i Mrs Mair Williams, Elidir
View, Bwlch, ar ôl triniaeth yn
Ysbyty Gwynedd ac sydd ar hyn
o bryd yn Ysbyty Eryri,
Caernarfon.

EISTEDDFOD PENTREFI
LLANRUG A CHWM Y GLO.
Bydd noson Celf a Chrefft yn
cael ei chynnal ar nos Fawrth yr
8fed o Dachwedd yn Neuadd
Ysgol Llanrug. Cynnyrch i law
erbyn 6.00. Bydd arddangosfa o'r
holl waith i'w weld rhwng 6.00 a
6.30, ac yna bydd y beirniadu!

Cofiwch hefyd am yr
eisteddfod ei hun yn Neuadd
Ysgol Brynrefail ar nos Wener y
12fed o Dachwedd am 5.30.
Testunau ar gael yn lleol.

(Diolch i MRS DILYS JONES, 3
Maes Gerddi, Cwm-y-Glo am
y lluniau)

Disgyblion Ysgol Cwm y Glo yn 1963



(Rhes Uchaf): Mr Cledwyn Williams, Ifan Roberts, David Taylor, Bryn
Williams, ?, Melfyn Evans, Arwel Jones. (Rhes 3): Colin Griffith,
Glyn Sinclair, Dennis Hyde, Ann Pritchard, Rhiannon Jones, Alwyn
Hughes, Mary Williams, Blodwen Williams, David Sinclair, Mrs
Owen, Miss Eluned Jones. (Rhes 2): Gwynedd Morris, Eifion Jones,
Gwynfor Evans, Meirion Williams, Berwyn Hughes, Helen Pritchard,
Glenda Jones, ?, ?, Christine Parry, ?, Rosina Jones, Bethan Wyn
Roberts, Mair Eleri Roberts, Vivian Orr, Sian Grace Jones, Glenys
Jones, Gwenda Williams. (Rhes 1): John Chick, Delyth Williams, Ann
Griffith, Gareth Jones, Leslie Williams, Gwynfor Rowlands, Wyn
Griffith, Gwyneth Jones, Gwyneth Green, Sian Hughes, Linda
Pritchard, ?, Dylan Jones, Keith Jones, Alan Jones.

Disgyblion Ysgol Cwm y Glo yn 1939



(Rhes Uchaf): Tom Vaughan Jones, Gordon Williams, Wyn Morris,
Lloyd Owen, Dafydd Elias Jones, Owen Davies, Idwal Pritchard,
Goronwy Pritchard, Evie Davies, Tom Owen.
(Rhes 3): Glenys Williams, Eileen Rowlands, Lizzie Catherine, Olive
Green, Eurwen Closs Parry, Dilys Hughes, Edith Wyn Griffiths, Vera
Parry, Eirlys Williams, Nora Williams, Betty Green.
(Rhes 2): Lil Williams, Jean Roberts, Doris Williams, Peggy Hughes,
Ida Williams, Gwyneth Roberts, Gwyneth Owen, Margaret Rose
Williams, Dilys Williams, Jennie Heulwen Hughes.
(Rhes 1): Elwyn Morris, Maldwyn Hughes, Eurwyn Williams, Hywel
Morris, Eric Phillips, Llew Hughes, Noel Williams, Hughie Williams,
Ieuan Williams, John Morris Jones, Donald Pritchard.



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI
CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

12 Llys Castan, Parc
Menai, Bangor LL57 4FH.



01248 679093



• Priodasau • Dathliadau

• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau

• Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 08444 119 004

UN FUNUD FACH

GWEDDÏO

Gwyrth ac atebiad i weddi a welwyd yn Chile pan achubwyd y 33 mwynwr ddechrau Hydref. Atebwyd eu gweddïau, a gweddïau teuluoedd a chyfeillion, a gweddïau miloedd o bobl ar draws y byd. Does ryfedd mai 'Diolch, O Dduw' oedd i'w weld ar flaen y crysau-T a wisgai'r mwynwyr wrth gael eu codi o'r pwll.

Ond o fewn tridiau i'r gorfoledd a gafwyd yn Chile clywyd bod hyd at 37 o lowyr wedi marw mewn pwll glo yn China. Ac os nad oedd hynny'n ddigon i gadarnhau gwyrth a welwyd yn Chile, roedd deall bod cymaint â 2,600 o lowyr wedi marw'r llynedd ym mhyllau glo China yn sicr yn gwneud hynny.

Roedd yna wahaniaeth rhwng y pwll yn Chile a'r pwll yn China. Roedd y ddwy ddamwain yn wahanol hefyd, a'r adnoddau oedd ar gael i ymateb i'r ddau argyfwng. Ac eto'r gwir nad oes mo'i wadu yw bod y dynion yn Chile wedi eu hachub a'r dynion yn China wedi cael eu lladd.

Gallwn ddiolch i Dduw am ateb gweddïau yn Chile. Roedd cymaint o weddïo yno fel na fedrai'r cyfryngau beidio sôn amdano, hyd yn oed os nad oedd pawb yn ei werthfawrogi. Un o'r bobl a gyfrannai at raglenni newyddion y BBC oedd James Thompson, seicolegydd ac arbenigwr mewn Straen Wedi Trawma (*Post Traumatic Stress*). Roedd ganddo sylwadau gwerthfawr i'n helpu i feddwl am yr hyn y byddai'r 33 yn ei wynebu dros y misoedd nesaf, yn dilyn yr achubiaeth ryfeddol. Ac roedd ei sylwadau am yr holl weddïo y clywyd amdano'n ddiddorol. Yn ôl Dr Thompson, rhyw fath o ffantasi yw gweddi, a dim mwy na dymuniad i bethau fod yn iawn. 'A'r hyn a welwn yma', meddai, 'yw ffantasi'n dod yn wir'.

Na, syr, nid ffantasi'n dod yn wir a welsom, ond y Duw byw'n clywed cri ei bobl ac yn ei hateb mewn ffordd syfrdanol. Fe wyr pob gweddiwr nad ffantasi yw gweddi, ond brwydr. Nid pwyso botymau hud, ond galw ar Dduw mewn ffydd, a hynny'n aml o ganol anawsterau gwaethaf bywyd. Nid ffantasi y bydd popeth yn iawn yn y diwedd mo gweddi, ond cri am gymorth Duw, hyd yn oed o ganol dryswch a methiant i ddeall pam fod pethau'n digwydd. Ac yn aml iawn, gallwn deimlo nad oes ateb i'n gweddïau, ac nad ydym yn cael yr hyn y gofynnwn amdano.

Nid yw'r Cristion yn honni ei bod yn hawdd deall ffydd Duw. Fe geir gwyrthiau fel yn Chile.

Ond fe geir hefyd drychinebau fel yn China. A phwy a wyr faint o weddïau a offrymwyd yno hefyd? Cymysgedd o'r Chile a'r China yw ein bywydau ninnau hefyd. Ac mewn gorfoledd a thristwch, mewn gobaith ac anobaith, diolchwn am gael galw ar Dduw i'n cysuro a'n nerthu yng nghanol troeon amrywiol ei ragluniaeth ddirlgel.

JOHN PRITCHARD

Bro'r Eco yn ysbrydoli nofel i blant

Mae Bac Caerdydd yn boddi, y Senedd yn suddo a'r chwareli yn cael eu defnyddio fel ffatrioedd. De Orllewin Prydain yw'r enw ar Gymru gydag Ynys Môn wedi hen ddiplannu oddi ar y map. Dyma Gymru 2050 fel y gwelir hi yn *Yr Allwedd Aur*, nofel newydd gan Eurgain Haf a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Mae'r llyfr yn perthyn i gyfres newydd sbon, Cyfres Strach, at ddant plant 9-13 oed. Nofel ffantasi ydyw yn llawn hud a chwedloniaeth am Llwyd

Cadwaladr, bachgen tawel a mewnblyg 13 oed, a'i hynt wrth chwilio am yr allwedd aur i achub dyfodol Cymru.

Daw Eurgain Haf o Benisarwaun, Gwynedd, yn wreiddiol, felly nid yw'n syndod bod hud a lledrith yn ei gwaed. Meddai

'Mae'r nofel hon wedi ei hysbrydoli gan fy mhlentynod a'm magwraeth yn Eryri, ardal sy'n frith o chwedlau a choelion am dylwyth teg, corachod, cewri, twneli tanddaearol a chysylltiadau Arthuraidd... Fel plentyn treuliais sawl awr yn chwilio'n ddyfal gyda'm ffrindiau am dwneli tanddaearol ac olion y tylwyth teg, ac er na ddois i fyth o hyd iddyn nhw, y gobaith yw i mi danio fy nychymyg ar hyd y daith.'

Mae hi wrth ei bodd yn darllen llyfrau ffantasi fel cyfresi Harry Potter a The Lord of the Rings ac mae'n siŵr bod dylanwad y llyfrau hyn ar ei gwaith.

Beth am stori *Yr Allwedd Aur*? Yn 2050 mae pwerau tywyll Gedon Ddu wedi dychwelyd i'r tir ac mae'n benderfynol o ddinistrio Cymru, y Meidrolfyd a'r Hudfyd drwy help ei weision ffyddlon. Dim ond un dyn all helpu bellach. A'r Brenin Arthur yw hwnnw, sy'n aros am yr alwad i achub ei wlad. Ond sut mae död o hyd iddo? A phwy sy'n ddigon dewr i ymgymryd â'r dasg?

Mae Llwyd Cadwaladr yn byw gyda'i Ewythr Bedwyr a'r pryfed lludw yn nhyddyn Porth Afallon. Dan orchymyn y Prif Weinidog Jac Offa, mae swyddogion y llywodraeth am chwalu'r tyddyn er mwyn adeiladu ffordd uwchddaeareol i bobl allu osgoi Cymru yn eu ceir trydanol. Ond pam fod Ewythr Bedwyr mor benderfynol o'u hatal. A beth fydd pris ei ystyfnigrwydd?

Yn *Yr Allwedd Aur* dilynwn Llwyd a'i ffrind annisgwyl, Arddun Gwen, i Ynys Afallon i chwilio am y Brenin Arthur a'r allwedd aur i achub Cymru. Ar eu taith fe ddônt ar draws cymeriadau rhyfedd iawn fel Heti Hyllidrem, cogyddes Cegin Arthur ac Wdull, y pryfeddyn swil. Dônt wyneb yn wyneb â Brenhines yr Wyddfa chwim ei thafod sy'n barod iawn i ddweud ei barn. A tybed beth fydd cyfraniad Rhitw Bitw, y Cnocwyr a'r Torgoch hynafol i'r stori?

Mae *Yr Allwedd Aur* yn annog y darlennydd i fentro ar daith arbennig iawn. Taith lle nad yw popeth yn ymddangos fel y dylai. Taith rhwng dau fyd, y Meidrolfyd a'r Hudolfyd.

Yn ei byd bob dydd, gweithia Eurgain gydag elusen Achub y Plant ac mae hi wedi ymgartrefu ym Mhontypridd.

Am fanylion pellach cysylltwch â : Meinir Garnon James 01559 363090 meinir@gomer.co.uk neu Eurgain Haf 07799 841522

Da chi'n cofio rhain?



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DIOLCH. Dymuna Liam, 3 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr arian a'r dymuniadau da iddo cyn cychwyn ar ei gwrs yn y Brifysgol yng Nghaerdydd.

DIOLCH. Dymuna Mari, 3 Hafod Oleu, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 40 oed yn ddiweddar.

DYMUNA Ernest a Margaret Ellen, Hafan, 7 Porth y Gogledd, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch o galon i bawb.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth nifer dda i gyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas a chafwyd gair o groeso gan y Llywydd, y Parch John Pritchard. Y Parch Huw John Hughes, Porthaethwy oedd y gŵr gwadd a chawsom hanes Richard Evans a Bad Achub Moelfre ganddo a hanes suddo'r Royal Charter. Cafwyd noson ddifyr iawn, roedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau. Diolchwyd i'r siaradwr gan Mrs Iona Richards.

C R O N F A Y M D D I R I E D O L A E T H DEINIOLEN. Cyfarfu'r

aelodau ar 27 Tachwedd 2009. Derbyniwyd 5 cais am gymorth a dyfarnwyd cyfraniadau fel a ganlyn:

Merched y Wawr	£150
Eisteddfod Gwaun Gynfi	£200
Ysgol Feithrin	£200
Clwb Pêl-droed Ieuenctid	£350
Seindorf	£1000

Fe fu oedi gyda'r taliadau oherwydd newidiadau yn nhrefniadau'r banc ond, erbyn hyn, mae pawb wedi derbyn eu cyfraniad.

PEN-BLWYDD. Dymuniadau gorau am ben-blwydd hapus i

Gwenllian Owen, Rhos Caradog a ddathlodd ei phen-blwydd yn un ar hugain yn ddiweddar.

PWYLLGOR APÊL EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012. Nos Fercher, 19 Medi, cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn Nghapel Ebeneser er budd y gronfa uchod. Cafwyd noson hynod lwyddiannus a braf yw nodi mai unigolion o'r pentref a'r ardal gyfagos a gymerodd ran, oll gyda thalent a gallu arbennig o'r filltir sgwâr hon. Yr artistiaid a gymerodd ran oedd Annette Bryn Pari, Elfed Morgan Morris, Bedwyr Pari, Lyndsey Fleming, Emyr a Siân Gibson, Deg Darn Arian a Chôr Dyffryn Peris. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r holl artistiaid am eu cefnogaeth barod ac i bawb a gefnogodd ar y noson.

CLWB PÊL DROED LLANBABO. Mae'r tîm wedi sefydlu ei hun erbyn hyn ac yn chwarae pêl-droed o safon yn erbyn timau profiadol. Er ambell ganlyniad siomedig mae'r mwyafrif o ganlyniadau yn addawol a chalonogol, maent wedi curo timau oedd, ar bapur, yn ymddangos yn gryfach. Cofiwch gefnogi Arwel a'r hogiau, mi fyddant yn croesawu eich cefnogaeth.

YSGOL FEITHRIN. Bu'r rhieni a'r plant ar daith gerdded ar 25 Medi gan godi bron i £500 er elw'r ysgol. Cawsom lawer o hwyl ar hyd y ffordd.

Mi fydd yr Ysgol Feithrin yn cynnal noson Tân Gwylt ar 4 Tachwedd. Bydd arddangosfa tân gwylt a stondin cŵn poeth ayyb. Drysau ar agor am 6.00. Dewch yn llw!

Hoffai'r pwyllgor hefyd apelio am gefnogaeth gan yr ardal leol - mae'n amser anodd i'r ysgol feithrin a byddai unrhyw roddion o gymorth mawr. Diolch.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

PRIODAS. Yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, ar Fedi'r 4ydd 2010, gyda'r Parchedig Hywel Davies yn gweinyddu priodwyd Geraint Henry Roberts, mab Derwyn a Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, a Siân Alaw Griffith, merch John a Gwen Griffith, Awel y Grug, Porthmadog. Cynhaliwyd y wledd briodas yn yr Amgueddfa Genedlaethol.

Croeso adre hefyd i Mari, chwaer Geraint, ar ôl treulio dwy flynedd yn Siapan.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn Nhafarn Bryngwna nos Lun, 20 Medi. Ar wahân i swyddogion ac aelodau'r hen bwyllgor nid oedd aelod arall o'r gymuned yn bresennol. A fyddai'r rhai a oedd yn absennol yn fodlon gweld tranc y Gymdeithas a'r gwaith mae'r swyddogion a'r pwyllgor yn ei gyflawni trwy'r flwyddyn - dim coeden Nadolig, dim canu carolau, dim helfa Wyau Pasg, dim parti 'Dolig i'r plant, dim ymweliad gan Siôn Corn, dim anrheg i'r pensiynwyr, cau'r caeau chwarae oherwydd dim yswiriant?

Yn ffodus i'r gymuned, roedd Richard Jones yn fodlon parhau fel Trysorydd a Clive James fel Cadeirydd. Fodd bynnag, mae'r swydd o Ysgrifennydd yn wag. Cytunodd Norman Hughes, Alun Roberts, Huw Ceiriog, Eryl Jones, Wyn Jones a Dewi Jones i barhau i fod yn aelodau'r Pwyllgor. Fodd bynnag, mae seddi gweigion ar y pwyllgor o hyd - a llawer o waith i'w wneud.

Gellir gweld y Fantolen ar gyfer 2009/10 ar hysbysfwrdd y pentref. Gofynnir i bawb ystyried ymgymryd â'r swydd o Ysgrifennydd ac ymuno â'r pwyllgor. Yr unig beth sydd angen ei wneud yw troi i fyny ar gyfer y cyfarfod nesaf am 8.00

o'r gloch nos Lun, 15 Tachwedd, yn Nhafarn Bryngwna a helpu i baratoi am y Nadolig.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir y gweithgareddau canlynol yn ystod mis Tachwedd:

7: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Dr Elwyn Richards

14: 11 Ysgol Sul
21: 10.00 Mr Edward Morus Jones

11. Ysgol Sul
28: 11 Ysgol Sul

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynnyddol yn y Ganolfan, Y Waunfawr ar 11 Hydref 2010. Etholwyd y Cynghorydd Gwilym Williams fel Cadeirydd a'r Cynghorydd Bryn Jones fel Is-Gadeirydd ar gyfer 2010/11.

Fel canlyniad i'r holiadur ynglŷn â defnydd o dir 'Gerddi Bach' yn Y Waunfawr, cae chwarae i blant lleiaf oedd y dewis cyntaf, wedyn gerddi llain, maes parcio ac wedyn lle chwarae ac ychydig o dai fforddiadwy. Trwy gyd-ddigwyddiad, cafwyd cais cynllunio ar gyfer gerddi llain - cais a gefnogwyd gan y Cyngor. Derbyniwyd y Fantolen ar gyfer 6 mis cyntaf y flwyddyn.

Cytunwyd i'r rhoddion ariannol canlynol:

Clwb Bowlio Waunfawr	£200
Clwb Pêl-droed Waunfawr	£250
Cynllun eFe:	£100
Eco'r Wyddfa	£150
Mynwent Capel Bethel	£100
Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam	£50
Apêl Waunfawr Eisteddfod yr Urdd	£250

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae am fis Hydref oedd: £40: (10) Dafydd Morris, Frondeg; £25: (9) Meinir Herring, Rhyddallt Bach; £15: (73) Marian Hughes, Tŷ Mawr; £5: (100) Hugh Jones, 22 Tai Glangwna.

PLYGU'R ECO. Eleni, braint darllenwyr Caeathro fydd plygu rhifyn mis Rhagfyr o'r Eco. Bydd y 'plygu' nos Iau, 2 Rhagfyr (noder y mis!) o tua 4.30 ymlaen. Cofiwch ddod, cymdeithasu, siarad a phlygu! **FFAIR 'DOLIG.** Bydd Ffair Nadolig Canolfan y Capel yn cael ei chynnal eleni ar nos Iau, 9 Rhagfyr yng Nghanolfan y Capel. Croesewir stondinau a gemau gan unrhyw fudiad lleol.

Darren Jones

Contractiwr Teilsio

CEGINAU

YSTAFELLOEDD YMOLCHI

A LLORIAU

**9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon**

**(01286) 669090
Mobile-07894818783**

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

**Yr Wŷn Lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref**

**Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist**

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

CERIS JONES

**Teglan,
Stâd Talybont**

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

*Cofiwch gefnogi
ein hysbysebwyrr*

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

DIOLCH. Dymuna Fred a Beth, Carreg Wen, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Aur.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Cafwyd noson ardderchog yn agoriad tymor y Gymdeithas yn Festri Capel Coch ar y 12fed o Hydref. Cawsom noson hwyliog yng nghwmni'r 'Glasanciau', o ardal Porthmadog, gyda'u canu caneuon poblogaidd i gyfeiliant gitâr a phiano. Cafwyd lluniaeth blasus i'r 'llanciau' a'r holl aelodau, wedi ei baratoi gan rai o'r aelodau. Llywyddwyd y noson a rhoddwyd y diolchiadau gan Y Parchedig John Pritchard.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar nos Fawrth, Tachwedd y 9fed, am 7yh yn y Festri, pryd y cawn sgwrs am 'Hanes y Chwarel' gan Mr Huw P. Hughes, Bethel. Croeso i aelodau hen a newydd, cewch sgwrs a phaned ar y diwedd.

FFAIR SBORION. Diolch i

bawb a ddaeth i gefnogi'r ymdrech ar brynawn Mercher, Hydref y 13eg, a diolch arbennig i'r rhai a gyfrannodd ac a fu'n paratoi ac yn trefnu ar gyfer casglu arian at Gynllun Efe. Gwnaed elw o £210.

NOSON Y CORAU. Mewn canlyniad i'r 'Cyngerdd', a gynhaliwyd ar Nos Wener y 15fed o Hydref yn y Mynydd Gwefru, bydd y swm o £547 yn cael ei drosglwyddo i Ambiwlans Awyr Cymru. Hoffai Côr Meibion Dyffryn Peris ddiolch i'r corau eraill am eu cydweithrediad a'u hymdrech i wneud y noson yn un mor llwyddiannus. Diolch arbennig i'r gymdeithas leol am eu cefnogaeth i'r cyngerdd.

CÔR MEIBION. Ychydig ddyddiau wedi'r cyngerdd uchod, ar nos Fawrth yr 20fed o Hydref, roedd y Côr yn diddanu ymwelwyr a phreswylwyr Llandudno, yn Eglwys Sant Ioan, pryd y cafwyd derbyniad canmoladwy iawn.

DOSBARTH MEITHRIN YSGOL DOLBADARN




Dros 50? Medrwch ymddiried yng Nghynnyrch a Gwasanaethau



YSWIRIANT CARTREF



NWY A THRYDAN




YSWIRIANT CAR



CYNLLUNIAU ANGLADD



YSWIRIANT TEITHIO
GWASANAETH LARWM PERSONOL



GWYLIAU
YSWIRIANT RHAG TORRI I LAWR

Darperir yr Yswiriant Cartref, Car a Theithio gan Fortis Insurance Limited.
Darperir yr Yswiriant Rhag Torri i Lawr gan Europ Assistance Holdings Limited.

I gael mwy o fanylion ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen, Caernarfon, LL55 2YD
Tel: 01286 678310
neu ffoniwch: 0800 085 3741
neu ymwelwch â: www.ageconcern.org.uk/products

**AGE
Concern**

Age UK yw'r grym newydd sy'n uno Age Concern a Help the Aged. Mae teulu Age UK yn cynnwys Age Scotland, Age Cymru ac Age NI.
Age Concern Enterprises Limited, Aetral House, 1268 London Road, SW16 4ER

YSGOL BRYNREFAIL 1930



E-BOST NEWYDD I'R ECO!

ecorwyddfa@gmail.com

Gallwch anfon eich lluniau a'ch storïau yma o hyn ymlaen.
Os nad oes gennych gyfrifiadur, ac am roi llun neu ddarn o ysgrifen i mewn, ewch ag o i **Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Ffordd Llanberis, Llanrug** ac fe wnaiff ei sganio a'i roi yn ôl i chi'n syth.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Phillip Foulkes

**CONTRACTIWR
PLASTRO**

**Mewnol • Allanol
Drylining**

Plastfyrddio Yn Ei Le

**Ymgynghori Ac
Amcangyfrif Am ddim**

**PENCAMPWR
PRYDAIN
2009**

Enillydd Dosbarth
Plastrwr a
Chyffredinol

Tel. 07760393155

ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

FIAT	PEUGEOT	BRÉCS	CLUTCHES TYRBO	AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN	MEWNFORIO YR ALMAEN
				DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR	

**• Cymhwyster •
BOSCH**
i roi gwasanaeth i'ch car
heb effeithio ar
y warant*
Dewis arall dibynadwy
yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

ABS	ADVANCED	VEHICLE	WORKSHOP	Gwasanaeth i'r Car
AIR CON	GWASANAETH	BATRIS		
VOLVO	MERCEDES	SAAB		

UNION IOLWYNION CAM BELTS TRYDANOL

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Crynodeb o gyfarfod Medi COFEBION

Penisa'rwaun: Capel Bosra: y Capel yn gyfrifol; Yr Eglwys: yr Eglwys yn gyfrifol; Yr ysgol: y llywodraethwyr yn gyfrifol; Cofeb Huw Lloyd Edwards: cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned **Bethel:** 2 gofeb rhyfel yn yr ysgol – cyfrifoldeb Pwyllgor Cofebion. **Rhiwlas:** cofeb rhyfel – cyfrifoldeb yr ysgol

Brynrefail: cofeb yn y Caban dros dro ond dim penderfyniad pa le i'w gosod

Dinorwig: cofeb chwarelwyr – gwirfoddolodd Gwilym Williams.

Deiniolen: Cofebion ym mynwent Macpella – cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd; Cofeb Cefn y Waun – i'w symud i Macpella? Gwirfoddolodd Len Jones i wneud ymholiadau gyda pherchennog y Capel a Cadw. **Llyfrgell Deiniolen:** Darllenwyd ateb Mr Hywel James, Prif Lyfrgellydd Gwynedd, yn ceisio cyfiawnhau mwy o oriau agor i lyfrgell Llanberis nag i lyfrgell Deiniolen.

Penderfynwyd gofyn iddo a oedd wedi ystyried bod poblogaeth Llanberis tipyn yn fwy na Deiniolen ac felly, yn naturiol, bod mwy o ddefnydd ar y lyfrgell honno.

Penisa'rwaun. Cyflwynodd y Clerc neges oddi wrth Y Cyngorydd Mrs Pat Larsen yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'w hymgyrch i

1. wrthwynebu lleihau/ neu ddiddymu gwasanaeth lolipop ar groesfannau.

2. wneud llwybr diogel o'r ysgol i gyfeiriad Siop Gron.

Penderfynwyd cefnogi'r ddau fater. Cafwyd cefnogaeth unfrydol.

Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams bod ceir yn parhau i barcio ar y palmant o'r ysgol i'r pentref – llythyr i Wynedd.

Pengaer i Ynys Iago. Adroddodd Phyllis Ellis bod lorïau mawrion yn parhau i fynd ar hyd y ffordd

yma, mae arwydd ger Ynys Iago ond dim yn y pen arall – llythyr eto i Wynedd.

Ffordd Cae Coch, Brynrefail. Dywedodd Pat Jones bod tyllau drwg yn y ffordd ac nad yw wedi ei hail-wynebu ers 40mllynedd – llythyr i Wynedd.

Cynllunio

Derbyniwyd 12 o geisiadau a chaniatawyd 11 gan Wynedd.

Llwybrau

Cyfeiriodd Elfed Williams at y fandaliaeth sy'n digwydd ar lwybr Gorlan, Deiniolen, mae'r ffens wedi ei thorri sy'n gadael y llwybr yn agored i dir preifat – llythyr i Wynedd.

Dywedodd Len Jones bod cyflwr llwybrau yn gyffredinol yn ddrwg oherwydd bod Gwynedd yn tueddu i wneud yr hyn sydd raid o hyd yn lle gwella llwybr cyfan. Mae'r bibell draenio yn dal yn y golwg ar lwybr Bro Helen i Celyn, gwaith blêr – llythyr i Wynedd.

* * *

Crynodeb o gyfarfod Hydref

Materion o'r cofnodion

Ffordd Pengaer i Ynys Iago. Ateb Dafydd Wyn Williams eto yn gwrthod arwydd 'Dim cerbydau mawr'. Teimlwyd ei fod yn ystyfnig – un arwydd syml i arbed yr holl drafferthion!

Rhoddion i Fudiadau elusennol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Cyflwynodd y Cadeirydd y gofynion lleol sef:

Deiniolen a Dinorwig: £5,000

Bethel a Llanddeiniolen: £5,000

Penisa'rwaun a Brynrefail: £5,000

Rhiwlas a Phentir: £5,000

Dywedwyd nad yw pobl yn barod i gyfrannu oherwydd nad yw lleoliad yr Eisteddfod wedi ei benderfynu. Trafodwyd sawl ffordd o gyfrannu, naill ai i Swyddfa'r Eisteddfod neu i'r pwyllgorau lleol. Penderfynwyd ar swm ac ail-edrych ar y sefyllfa eto y flwyddyn nesaf.

Pwyllgor Neuadd

Penisa'rwaun £300

Neuadd Bentref Rhiwlas:	£300
Neuadd Goffa Bethel:	£300
Llais Ogwan:	£100
Eco'r Wyddfa:	£300
<i>Amod arbennig i'r Eisteddfodau: Bod £25 o'r £300 yn cael eu cynnig yn wobwr cystadleuaeth dan 18oed am draethawd ar y testun: 'Llanddeiniolen yfory'.</i>	
Eisteddfod, Bethel:	£300
Eisteddfod Bentref	
Penisa'rwaun:	£300
Eisteddfod, Deiniolen:	£300
Seindorf Arian Deiniolen:	£300
Clwb Bro Bethel:	£100
Clwb Snwcer, Deiniolen:	£150
Clwb Snwcer Bethel:	£150
Clwb Pêl Droed, Bethel:	£150
Ysgol Feithrin, Deiniolen:	£150
Cymdeithas Lenyddol	
Bethel:	£100

Clwb Rhiwen, Rhiwlas:	£150
Ti a Fi Penisa'rwaun:	£150
Cylchgrawn Ieuenctid	
Dyffryn Ogwen:	£100

Cynllunio

Derbyniwyd 10 cais

Llwybrau

Gofynnodd Hefin Williams a oedd ateb oddi wrth Menter Fachwen ynglŷn â gorffen torri gwair llwybrau.

Cyfeiriodd Richard Ll. Jones at wal wedi disgyn ar lwybr Stabla – llythyr i Wynedd.

Dywedodd y Cadeirydd bod llawer o gwynion am gŵn yn baeddu yn Stad Bryn Eglwys, Penisa'rwaun.

CÔR DINAS BANGOR

Yn ystod Medi cafodd y Côr fis o wyliau ar ôl cyfnod prysur iawn yn ystod misoedd yr haf. Ail ddechreuwyd ar y canu nos Fercher, 6 Hydref, yn Ysgol y Faenol. Cyngerdd cyntaf y tymor newydd oedd yn Eglwys St John, Llandudno – y mae'r Côr eisoes wedi bod yno sawl tro y flwyddyn hon ac wedi cael derbyniad gwresog iawn gan sawl cynulleidfia o tua tri chant o bobl bob tro.

Yn ystod yr Hydref a Thachwedd bydd y Côr yng ngofal Gwilym Lewis yr Is-arweinydd efo Lowri Roberts Williams yn cyfeilio oherwydd bydd James Griffiths draw yn arholi cerdd yn Awstralia.

Y mae darpariaethau eisoes ar y gweill ar gyfer ymweliad y Côr y flwyddyn nesaf ag Awstralia. Ceir mwy o fanylion maes o law.

Cynhelir cyfarfodydd canu y Côr bob nos Fercher yn Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd am 7.30 yr hwyr. Rwan yw'r amser i ddarpar aelodau newydd ymaelodi. Os oes unrhyw un a diddordeb ymuno â'r Cor dowch draw i wrando a chael sgwrs. Y mae croeso mawr i unrhyw un ddod i wrando arnom. Byddwn yn croesawu sawl ymwelydd bob blwyddyn.

Urdd Gobaith Cymru Sul yr Urdd 2010 Dydd Sul, 21 Tachwedd

Y Parchedig Emlyn Dole o Bontyberem sydd wedi llunio Gwasanaeth Sul yr Urdd eleni ar thema Newid Hinsawdd. Mae wedi paratoi tair fersiwn – un cynradd, un uwchradd ac un ar gyfer defnydd ysgolion Sul a chapeli fydd yn cynnwys gweddïau, emynau a chyfuniad o'r gwasanaethau cynradd ac uwchradd.

I gyd fynd gyda'r ymgyrch Urdd Gwyrdd penderfynwyd peidio argraffu llyfryn eleni ond yn hytrach cynnwys y gwasanaeth ar wefan yr Urdd. Mae'r gwasanaeth ar gael i'w lawr lwytho oddi ar safle we, urdd.org a'r gobaith yw y bydd llawer o ganghennau'r Urdd, Ysgolion Sul a chapeli yn gwneud defnydd ohono.

Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Eurfyl Lewis, Swyddfa'r Urdd, Yr Hen Ysgol, Hebron, Y Glog, Sir Benfro SA36 0DT, 01239 832093 neu eurfyl@urdd.org.

**PIANO
AR WERTH
Cysylltwch ar
(01286) 673839**

ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



**J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG**

Gwaith Coffaol

**Ffon Gwaith
01286 672898**

**Cartref
01248 679089**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

COFIO CATHERINE ROWLANDS

(Pen'rallt, Bwlch)

Ddechrau'r flwyddyn eleni cawsom y newydd trist gan ein ffrind, Catherine, ei bod yn ddiifrifol wael. Ei dymuniad oedd i gadw hyn i'w theulu agosaf a ninnau o'n dwy. Trwy gydol yr amser ddilynodd bu'n ymladd yn ddewr a di-gwyn. Yn ystod y cyfnod buom yn trafod llyfrau, rhaglenni teledu a phob math o bynciau oedd yn y newyddion, a Catherine fel arfer yn mwynhau mynegi ei barn gydag arddeliad. Buom yn hel atgofion am Ysgol Brynrefail lle gwelsom ein gilydd gyntaf dros hanner can mlynedd yn ôl, ac edrych ar hen luniau yn cynnwys y diwrnod yr agorwyd yr ysgol newydd yn Llanrug. Yno hefyd y cyfarfyddodd Colin Rowlands. Hel atgofion wedyn am briodas y ddau yng Nghapel Pontrug; un ohonom yn forwyn a'r llall yn chwarae'r organ. Y gwas oedd Emyr Gruffydd Jones a Michael Regan yn tynnu'r lluniau - dau o ffrindiau ysgol Colin.

Roedd Catherine yn gymeriad cryf fel ei thad, Peris Roberts; roedd yn benderfynol o lwyddo ym myd addysg ac aeth ymlaen i Brifysgol Aberystwyth a graddio mewn Saesneg. Roedd ganddi anwylydeb a dawn artistig ei mam, Lillian Roberts, a hynny yn dod i'r amlwg yn ei gwisg a'i chartref. Bu Catherine a Colin yn ddi-wahân ar hyd y blynyddoedd hapus gawsant, y ddau yn rhannu'r un diddordebau, gan gynnwys garddio. Buont yn athrawon yn ardwl Warrington, lle ganwyd Elwyn a Ruth, sydd yn dal i fwynhau gwyliau cyson ym Mhen 'Rallt gyda'u teuluoedd.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bae Colwyn. Cymerwyd rhan gan Y

Parch. Jane Allen, fu'n gymorth mawr i Catherine yn ystod yr amser y bu yn Hosbis Dewi Sant. Talwyd teyrnged iddi gan Anne Parry Jones a dau o'i chydweithwyr. Estynnwn ein cydymdeimlad â Colin, fu mor garedig a gofalus ohoni, yn ogystal â'i phlant Elwyn a Ruth a'r wyrion Jake, Adam, Thomas, Isobel ac Evan, oedd hefyd mor agos at ei chalon.

ANNE A MAGI

THEATR BARA CAWS

Bara Caws yn Llwyfannu Addasiad John Ogwen o 'Un Nos Ola Leuad' (Caradog Prichard) yn y Gwanwyn 2011. Addasiad John Ogwen o nofel enwog Caradog Prichard 'Un Nos Ola Leuad' fydd cynhyrchiad cyntaf Theatre Bara Caws yn 2011.

Bydd y cynhyrchiad yn cydfynd â hanner canmlwyddiant cyhoeddi'r nofel ysgytwol ac yn ddeng mlynedd ar hugain ers y cynhyrchiad gwreiddiol gan Gwmni Theatr Cymru.

Dywedodd John Ogwen: 'Rwy'n edrych ymlaen yn fawr i gydweithio ar y cynhyrchiad cyffrous ac yn falch bod cenhedlaeth newydd yn cael cyfle i weld y ddrama.'

Ar ran y cwmni dywedodd Linda Brown fod sawl trefnydd wedi dangos diddordeb mawr yn barod a'i bod yn bwysig i drefnwyr gysylltu â'r cwmni ar fyrder i sicrhau perfformiad yn eu hardal:

'Does dim dwywaith y bydd gofyn mawr am y cynhyrchiad yma ac rydym wrth ein boddau yn cael y cyfle i lwyfannu un o wir glasuron llenyddiaeth Gymraeg.'

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Linda Brown ar 01286 676335 neu drwy e-bost

tbaracaws@btinternet.com



Merched blwyddyn gyntaf y chweched dosbarth yn 1959. Catherine ydi'r 4ydd o'r chwith yn y rhes ganol.

Awdur Lleol yn Cyhoeddi Dau Lyfr

Mae dau lyfr arall gan Emily Huws o Gaeathro wedi ymddangos o'r wasg yn ddiweddar. Addasiadau ydynt ar gyfer plant oedran cynradd o lyfrau Rose Impey a Cindy Jeffries. Mae *Hogyn Honco a Hogan Hurt* wedi ei anelu at yr oedran o 6 i 8 oed, a *Gweld Sêr: Brwydr y Bandiau* yn nofel i enethod rhwng 8 a 12 oed. Mae'r naill yr unfed cyfrol ar ddeg yn y gyfres 'Gwalch Balch' a'r llall y ddegfed cyfrol yn y gyfres 'Gweld Sêr'.

Hogyn Honco a Hogan Hurt (Gwasg Carreg Gwalch)

Mae pawb yn gwneud pethau gwirion bob hyn a hyn ond mae Huwi Honco yn hurt bost drwy'r adeg, a'i fam druan bron â drysu. Tybed ai Huwi sydd gallaf yn y diwedd? Hogan hanner call ydi Beti Benwan ac mae'i rhieni yr un mor dwp â hi. Pan ddaw dyn ifanc call heibio, mae'n meddwl nad oes pobol dwpach i'w cael yn unman - nes iddo fynd i grwydro! Mae'r gyfres hon wedi hen ennill ei plwy ac mae gofyn mawr am ragor o deitlau sy'n cyflwyno straeon traddodiadol y byd mewn modd patrymog, diddorol a doniol. Yn cynnwys dwy stori ac yn llawn lluniau du-a-gwyn bywiog, mae teitlau'r gyfres yn ddelfrydol i'w darllen i blant bach, yn ogystal â bod yn straeon y gall darllenwyr

ifanc fwynhau eu darllen ar eu pennau'u hunain.

Gweld Sêr: Brwydr y Bandiau (Gwasg Carreg Gwalch)

Mae band Erin o ysgol Berfformio Plas Dolwen wedi cael cyfle i gystadlu mewn Brwydr Bandiau rhyngwladol.

Gan fod y gystadleuaeth yn cael ei darlledu ar deledu byd eang, mae'n rhaid i bopeth fod yn hollol berffaith.

Ond mae'r cyfan yn troi'n drychineb dychrynlyd pan aiff gwisg arbennig Erin ar goll!

Tybed a oes peryg iddyn nhw golli Brwydr y Bandiau cyn dechrau?



**Oriel
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Dylan Griffith

Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyraeddwrch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Recriwtio Ynadon Newydd ar Gyfer Ardal Arfon

Mae ynadon wedi bod yn ymwneud â gweinyddu cyfiawnder ar lefel leol ers canrifoedd lawer ond mae eu pwysigrwydd o ran gweinyddu cyfiawnder yr un mor bwysig heddiw ag erioed. Ni fyddai modd gweinyddu cyfiawnder lleol heb wirfoddolwyr sy'n fodlon cyflwyno eu henwau i ymuno â'r ynadaeth.

Mae'n hawdd deall pan fydd unigolion yn pendroni am gyfnod hir a gyda pheth ofn cyn cyflwyno cais. Mae'r gwaith yn golygu ymrwymiad amser sylweddol ac mae eistedd i farnu cyd-ddinasyddion yn gyfrifoldeb difrifol. Fodd bynnag, mae gan y gwaith ochr gadarnhaol hefyd gan ei fod yn darparu cyfle gwerth chweil i gyfrannu at fywyd y gymuned a darperir pecyn hyfforddi cynhwysfawr ardderchog i'ch paratoi chi ar gyfer y gwaith a'r cyfrifoldebau dan sylw.

Wedi'r cyfan, heb wirfoddolwyr ni fyddai'r system cyfiawnder troseddol gyfredol ar y lefel hon yn parhau. Oherwydd bod gennym ynadon gwirfoddol gallwn ddarparu cyfiawnder ar lefel leol – pobl leol sy'n adnabod eu cymunedau ac sy'n gweinyddu cyfiawnder ar ran y cymunedau hynny. Mae'n swyddogaeth unigryw yn y byd modern: nid oes gan unrhyw wlad ddemocrataidd arall system o'r fath. Bydd y rhan fwyaf o gymdeithasau democrataidd yn gweithredu math o system rheithgor ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol a ddaw gerbron eu llysoedd, ond Cymru a Lloegr yw'r unig wledydd sy'n defnyddio union yr un egwyddorion ar gyfer achosion a wrandewir ar lefel diannod neu is. Mae'n draddodiad pwysig sy'n dibynnu ar bobl yn rhoi eu henwau gerbron i ddod yn ynad.

Yng Nghymru, rydym hefyd yn ymfalchio yn y ffaith y gallwn ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y ddwy iaith swyddogol – Cymraeg a Saesneg. I gyflawni hyn mae'n rhaid i ni ddarparu aelodau staff dwyieithog ac ynadon dwyieithog. Yn ardal Arfon yng Ngwynedd yn awr, am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd, mae ein cyfran o ynadon dwyieithog ar y fainc yn is na chyfran aelodau dwyieithog y gymuned a wasanaethir. Rydym felly yn arbennig o awyddus i ddenu cymaint â phosibl o ynadon dwyieithog i barhau â'r arbenigedd hwn y mae Llys Caernarfon yn hanesyddol, ac yn ddigon teg, wedi bod yn falch ohono.

Rydych ni'n eich gwahodd i fynychu Noson Recriwtio yn y Ganolfan Cyfiawnder Troseddol,

Caernarfon, am 6.00 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 1af 2010, lle byddwch chi'n medru siarad efo ynadon a chael gwybodaeth bellach am y broses. Yn y cyfarfod byddwn yn esbonio pam ein bod yn awyddus i apwyntio o leiaf chwe ynad, gyda phedwar o'r chwech yn ddwyieithog.

Mae gennym Canolfan Cyfiawnder Troseddol, Ffordd Llanberis, Caernarfon newydd ac mae'r naill a'r llall yn darparu cyfleusterau da a modern ar gyfer ynadon a'r cyhoedd, ac mae Mainc Gwynedd yn parhau i fod yn Fainc gref, ymrwymedig a chyfeillgar sydd â chysylltiadau cryf â'r gymuned.

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer bod yn ynad yn ardal Arfon, gwn y cewch holi unrhyw aelod o Fainc Gwynedd, p'un ai a ydynt yn dal i wasanaethu ar y Fainc ai peidio, i gael rhagor o wybodaeth, neu cysylltwch â Mrs Gwen Owen ar 01492 863868 neu anfonwch e-bost ati at gwen.owen@hmcourts-service.gsi.gov.uk

Tai ar frig yr agenda yng Ngwynedd

Mae newidiadau i'r hinsawdd economaidd, gymdeithasol a gwleidyddol y flwyddyn ddiwethaf yn anorfod wedi cael dylanwad ar y sector dai yng Ngwynedd.

Bu Cynhadledd Tai Gwynedd, a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar, yn edrych ar ffyrdd o ymateb i'r heriau hyn a sut i gyflawni mwy gyda llai o adnoddau.

Roedd cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector tai yn cymryd rhan yn y gynhadledd, a bu trafod ar faterion megis cyflenwad tai, tai fforddiadwy, safon a chynaliadwyedd y stoc tai.

Y prif siaradwyr oedd: Peter Hughes – Cadeirydd Cyngor Benthycwyr Morgais Cymru; Nick Bennett – Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Cymru; Keith Edwards – Cyfarwyddwr Sefydliad Siartredig Tai yng Nghymru; Wyn Roberts – Cyfarwyddwr Rhaglen Adfywio Arfordir Gogledd Cymru, Llywodraeth y Cynulliad.

Cynhaliwyd gweithdai yn ystod y dydd hefyd oedd yn gyfle i'r cynrychiolwyr drafod materion megis cyfleon i gydweithio rhwng y sector gyhoeddus a phreifat; tlodi tanwydd; allyriadau carbon a chefnogaeth ar gyfer pobl anabl neu bobl hyn.

Dyweddodd Paul Diggory,

Cadeirydd y Bartneriaeth Tai: 'Mae landlordiaid cymdeithasol, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau yma yng Ngwynedd yn teimlo effeithiau'r crebachiad economaidd bydeang ac o'r herwydd rydym yn gweld newidiadau yn ffordd mae pobl yn byw, gydag oes aur perchnogaeth cartrefi yn dod i ben.

'Fel partneriaeth mae'n rhaid i ni newid i adlewyrchu hyn, er enghraifft trwy sicrhau fod digon o dai o ansawdd da ar gael i'w rhentu ac i'w prynu. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi cymorth fel bo perchnogion tai yn ymwybodol o'r posibiladau o wneud gwell defnydd o adeiladau gwag ac i weithio gyda pherchnogion i wella ansawdd adeiladau, arbed arian ar filiau ynni a chyfrannu tuag at leihau ein hól troed carbon.'

Ychwanegodd y Cynghorydd Trefor Edwards, deilydd portffolio Tai Cyngor Gwynedd:

'Roedd y gynhadledd yn gyfle hefyd i ni groesawu cyfleoedd newydd yn y misoedd sydd i ddod, megis y posibilrwydd o ddatblygu cynlluniau prentisiaeth a chyfleoedd gwaith ac i sicrhau fod tai yn allweddol i gynlluniau adfywio canol trefi.'

Toriadau i gyllid S4C yn fygythiad i lais ein cymunedau yng Nghymru.

Mae'r cyhoeddiadau diweddar fod S4C yn paratoi ar gyfer toriadau helaeth yn ei grant o filiwn o bunnoedd gan y DCMS yn Llundain yn destun pryder i nifer ohonom yng Nghymru. Petai nhw'n digwydd, fe fyddai toriadau o'r fath yn ergyd aruthrol i Gymru ac i fywyd diwylliannol Cymru yn gyffredinol.

Ers ei sefydlu yn 1982, mae'r sianel wedi esblygu'n helaeth ac mae hi bellach wedi ennill ei phlwyf yn nhirwedd digidol newydd y byd darlledu. Mae hi'n un o gannoedd o sianeli sy'n darlledu'n gwbl ddigidol o fewn Cymru ar Freeview a Virgin, ac ar draws y Deyrnas Unedig drwy Sky ac ar ei gwefan www.s4c.co.uk. Ac eto, hi yw'r unig sianel ar draws y byd sy'n darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth sydd wedi dod yn sgil creu'r sianel?

Yn gyntaf, crewyd nifer o gwmnïau bychain i'w gwasanaethu, ac mae rhai ohonynt wedi datblygu i fod yn gwmnïau dylanwadol yn y diwydiant dros y Deyrnas Unedig. Cwmnïau fel Tinopolis a Boomerang. Ond yn bwysicach, mae'r cwmnïau hyn

yn gyfrifol am gyflogi cannoedd o amrywiol staff ac yn gyflogwyr allweddol mewn nifer o gymunedau led-led Cymru.

Yn bwysicaf oll, mae S4C wedi cynnig llais i 600,000 a mwy o bobl sy'n medru'r iaith lle mae dirfawr angen hynny. Mae'n cynnig cyfle i ddysgwyr glywed y Gymraeg ac mae nifer o raglenni yn boblogaidd iawn gyda Chymry Di-Gymraeg yn ogystal. Llais i fynegi yr hyn sy'n unigryw am y Gymru fodern yw S4C. Pa sianel arall sy'n gwneud hynny'n effeithiol?

Nid gwneud toriadau i sianel arferol fyddai gwneud toriadau i S4C, ond toriadau i sianel sydd wedi ei chreu er mwyn rhagfarnu'n gadarnhaol o blaid iaith leiafrifol sy'n gwbl ddbynol ar sefydliadau fel S4C er mwyn cynnal diwylliant. Mae'r toriadau hyn yn fygythiad i leisiau ein cymunedau ni, ac i'n hunaniaeth ni ar y sgrin. Mewn oes lle mae presenoldeb ar y teledu a'r we fyd eang yn holl bwysig, mae llywodraeth San Steffan yn bygwth gwanhau llais y Gymraeg ar y cyfryngau hynny. Pe bai'r toriadau hyn yn dod i rym, byddai llai o wynebau a lleisiau ein cymunedau ni i'w gweld a'u clywed ar y sgrin.

Beth allwch chi wneud? Mae amser yn brin ond mae rhai pethau y gallwch chi wneud HEDDIW -

Gallwch ymuno gyda'r grŵp facebook – Na – i DORI-adau yng nghyllideb S4C neu gallwch anfon llythyr yn mynegi eich pryderon yn syth at Jeremy Hunt. Dyma'r cyfeiriad:

Rt Hon Jeremy Hunt MP
Secretary of State for Culture,
Olympics, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London
SW1Y 5DH

CEFNOGWCH S4C

Bydd Cymdeithas yr Iaith yn cynnal dau ddigwyddiad cenedlaethol pwysig iawn yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd Rali Flynyddol 'Tynged yr Iaith 2' gyda Ryland Teifi a Siôn Ifan o'r gyfres *Pen Talar* yn cael ei chynnal yn Aberystwyth ar 30ain Hydref, a Rali 'Na i Doriadau - Ie i S4C newydd' gyda Angharad Mair a Rhodri Glyn Thomas AC yn siarad yng Nghaerdydd ar 6ed o Dachwedd.

Mae miloedd o aelodau a chefnogwyr gan Gymdeithas yr Iaith, gwnewch eich rhan trwy ddod i'r digwyddiadau yma.

Diolch am eich cefnogaeth!



Ar Ben Arall y Lein

(parhad o'r dudalen gefn)

Gwlad Cymru, Dŵr Cymru, Cyngor Gwynedd ac, wrth gwrs, yr Asiantaeth fel y sefydliad arweiniol. Cadeirydd y Fforwm yw Aelod Cynulliad Cymru, Mr. Alun Ffred Jones.

Roedd yn amlwg fod rhyw anesmwythdra mawr gan rai o'r aelodau oherwydd yr amser sy'n llithro heibio a'r problemau yn parhau er, eleni, nad yw'r lliw gwyrdd wedi dangos ei ben, mae'n amlwg fod rhywbeth mawr yn digwydd gyda'r dyfroedd eleni yn annaturliol o glir.

Cawsom wybodaeth am samplau craidd o waelod y llyn sy'n adrodd hanes unrhyw lygredd a fu'n effeithio ar y dyfroedd dros y 200 mlynedd



John Hope Hughes efo'i eog 6 phwys o Grawia

diwethaf. Diddorol oedd clywed fod llygredd gyda metalau wedi digwydd yn 1860'au, wedyn gyda chynnydd mewn ffosffadau yn nechrau'r 1900'au gyda'r twf ym mhoblogaeth Llanberis a'r cylch. Ond mae

dechrau'r problemau sy'n ein effeithio heddiw gyda'u gwreiddiau yn y 1960'au. Ia, dyma'r amser pan ddaeth gwaith carthffos presennol Llanberis yn weithredol. Fe awgrymodd un aelod o'r fforwm ei bod yn debygol nad oedd dim wedi ei wneud i uwchraddio'r lle ers yr amser yma.

Felly, heb flewyn ar dafod, mae'n bosib dweud mai carthffos yw gwreiddyn yr holl broblemau. Ar ôl trafodaeth go danllyd fe gafwyd gwybodaeth y bydd adroddiad drafft ar be fu'n angenrheidiol i'w wneud i sicrhau fod y trafferthion yma ar ben ar gael yn ystod Chwefror 2010.

Canlyniad y problemau, wrth gwrs, yw fod y rhan fwyaf o'r eogiaid yn cau rhedeg yr afon nes bydd y dyfroedd wedi oeri'n sylweddol. Ewch i lawr at y Clwb Hwyllo yng Nghaernarfon ar waelod llanw i weld arddangosfa o Eogiaid yn neidio tra yn disgwyl i'r amgylchiadau fod yn iawn cyn rhedeg yr afon.

Does dim perygl i'r nifer o Eogiaid sy'n dod i'n dyfroedd, mae'r nifer yn cynyddu yn flynyddol, ond tydi hyn yn da i ddim i ni fel 'sgotwrs gan bod ein tymor ar ben cyn cael y cyfle i ddal ein swper. Mae'n rhaid edrych yn ddifrifol ar sut y mae'r tymhorau'n cael eu gosod gan yr Asiantaeth, be yw'r synnwyr mewn cymharu'r Seiont, Gwyrfa'i a'r Llyfni efo'r Ddyfrdwy ar Wysg. Mae estyniad arbrofol ar y gweill, ond beth fu'r canlyniad 'sgwn i.

O'r eogiaid fu'n fentrus a throi eu trwynau i'r afon, fe ddaeth rhyw 20 i'r wialen, ac i brofi pwynt - Eogiaid oedd rhain i gyd gyda phwysau o 5-7 bwys. Dyma'r union fath o 'sgodyn a ddylai fod wedi rhedeg yn ystod mis Awst. Mae rhain, felly, bron i ddau fis yn hwyr.

Pwy yw'r 'sgotwrs gorau tybed? Wel, Clifford Thomas, Felinheli, a Gwynfor Jones, Bethel, hefo rhyw un bach yr un am 5 pwys. Dr Robin Parry, Llanberis, un am 6pwys a'r un lleiaf hefyd am 3 phwys!! Carl Hasson, Caernarfon, gynt o Frynrefail gyda thri, i gyd tua 7 bwys, hefyd Hefin Hughes, Caernarfon, hefo tri, eto at yr un pwysau. Dafydd Spencer, Llandudno, un am 6 phwys. Victor Jones, Penisarwaun, un am 5 pwys. Malcolm Owen, Caernarfon, hefyd gyda dau eto at y 6 phwys 'ma. Ni chefais i lwc o gwbwl, felly rhaid canu am fy nhe, mwyaf tebyg.

Mae'n braf gweld tipyn o aelodau ifanc yn gafael ynddi, pencampwr y rhain eleni yw John Hope Hughes, Caernarfon, gyda eog o 6 pwys o Crawia, - tipyn gwell 'sgotwr na'i daid yn barod.

O adran y grantiau, mae dros £1,000 wedi ei ganiatau o Gynllun Pysgota Cynaliadwy'r Cynulliad, cynllun sy'n cael ei weinyddu gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r arian yma i'w ddefnyddio at arwyddion a chamfeydd newydd.

Rhaid rhoi gair o ganmoliaeth i Adran Atal Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd am y gwaith sy'n cael ei wneud yng nghyffiniau Stablau i glirio'r coed a'r mieri sydd wedi tyfu a rhwystro llif yr afon. Mae'r gwaith yma wedi ei ohirio ers peth amser oherwydd anffodlonrwydd rhai i weld y gwaith yn mynd yn ei flaen, ond rwyf ar ddeall fod y problemau wedi'i goresgyn a bydd effaith llifogydd y gaeaf o hyn ymlaen wedi lleihau - a bydd lle eithriadol o dda unwaith eto ar gael i 'sgota!

A dyna ni tan tro nesaf pan fydd newyddion y llynnoedd ar gael.

HUW PRICE HUGHES



Gwynfor Jones efo'i eog 6 phwys o Grawia



Gwasanaeth Gwres a Plymio



Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

ANTUR WAUNFAWR AILGYLCHU

Gwaredu Data



Llarpio Dogfennau Cyfrinachol

www.anturwaunfawr.org

ffôn: 01286 669330

swyddfa@anturwaunfawr.org

CHWARAEON

Y CAM CYNTAF

Dros y tymhorau rydym wedi mabwysiadu tîm rygbi Caernarfon fel ein tîm 'ni'. Bu nifer o lanciau'r ardal yn cynrychioli'r tîm ac, o dan eu hyfforddwr brwdfrydig Ieuan Jones, mae cyfnod llewyrchus arall ar y gorwel. Yn y dyddiau 'llwm' ble roedd pêl-droed yn llwyr reoli arhosodd carfan yn driw a 'chynnal y fflam'. Bu cyfnod o chwarae yn y Gynghrair Genedlaethol, ond erbyn hyn mae tair adran yma yn y gogledd tu fewn i'r strwythr genedlaethol. Yn sicr, mae'r safon wedi gwella, a ffurfio'r tîm rhanbarth yn cynyddu'r statws. Fesul cannoedd y rhifir y cefnogwyr ar gyfer gemau cartref y Cofis erbyn hyn.

Heb amheuaeth, mae'r llwyddiant yn ganlyniad i'r strwythr ieuencid effeithiol ac fe ddenir nifer o Fro'r Eco yno.

Braf cofnodi fod tri aelod o'r garfan ieuencid o Fethel yn

cymryd y cam cyntaf o gyrraedd lefel cynrychioli ardal, sef Eryri, a hynny yn yr oedran dan 11. Y tri yw Siôn Owen (prop), Iwan Parry (canolwr) ac Ifan Gwyn (asgellwr). Yr wythnos diwethaf roedd y tri yn chwarae mewn gem rag-baratoi draw yn Nant Conwy, cyn wynebu her tîm ardal Abertawe ar faes Caernarfon yn ystod y mis nesaf.

Mae'r tri wedi hen arfer trin y bêl gan eu bod hefyd yn aelodau o garfan bêl-droed dan 11 Bethel. Braf yw gweld y ddwy gêm yn cyd-fyw â'i gilydd ac yn rhoi cyfleon i'n hieuencid.

Mae'n siŵr fod y tri yn 'breuddwydio' hefyd ynglŷn â'r dyfodol. Symbyliad sicr fydd galwad yr asgellwr cyhyrog o Fôn - George North - i'r garfan genedlaethol. Tipyn o gamp i lanc 18 oed. Dymunwn yn dda iddo ac i'r tri lleol ar eu datblygiad.



COLLI CYMERIAD

Dyna yn sicr oedd Malcolm Allison, dyn yr het fawr a'r sigâr. Hyfforddwr ag agwedd ymosodol ar sawl lefel ond a gynhyrchodd dimau yn chwarae pêl-droed ymosodol, atyniadol. Yn wir, ni ddaeth llwyddiant i Manchester City ers ei gyfnod o. Cawn weld eleni os bydd arian yn gallu prynu llwyddiant. Mae'n werth cofnodi marwolaeth Allison oherwydd un cynnig a wnaeth ar ddechrau'r saith degau. Cynigodd y dylid gwahardd trosglwyddiadau am dymor cyfan er mwyn gweld beth oedd dawn hyfforddi clybiau yn meithrin 'talentau cynhenid'. Beth fuasai'n digwydd rŵan o dderbyn y cynnig. Faint o chwaraewyr Prydeinig sydd yn nhimau cyntaf timau'r uwch

gynghrair. Ydy'r strwythr yn gwanhau datblygiad y timau cenedlaethol?

O wireddu ei gynnig yn sicr buasai'r cyflogau yn is, a llai o dimau mewn dyled. Ie, dyn i wrando arno oedd 'Big Malc'.

Hwb Chwaraeon i Wynedd

Mae chwech o glybiau a sefydliadau chwaraeon ar draws Gwynedd wedi elwa o hwb ariannol o £5,300 diolch i gronfa Cist Gymunedol Gwynedd.

O glybiau pêl droed i fowls dan do, bydd y grant o'r gronfa yn rhoi cymorth sylweddol i sefydliadau a chlybiau chwaraeon amrywiol ledled y sir.

Dyweddodd y Cynghorydd

CAMPAU'R GAEAF

Erbyn hyn mae 'criwiau'r nos' wedi ail gychwyn - timau dartiau, snwcer a pwl. Mae'r tair camp yn boblogaidd iawn yn yr ardal ac yn chwarae rhan gymdeithasol bwysig. Dros y blyneddau bu Cyngor Llanddeiniolen yn nodi cyfraniad y timau, yn enwedig i'r ifanc drwy gyfrannu'n ariannol at glybiau snwcer a phêl-droed ieuencid yr ardal. Pan ddaw cais, braf nodi fod y clybiau snwcer yn cyfeirio at ddatblygiad i hybu aelodaeth ieuanc. Bu un clwb eleni yn gofyn am gyfraniad i logi hyfforddwr. Da gweld hyn.

Mae'r dartiau wedi hen ennill eu plwy ymysg y dynion a'r merched. Ceir cynrychiolaeth o'r ardal hefyd yn nhimau'r sir. Un elfen drist yw na welir enw'r Bedol ymysg y timau eleni, yn enwedig o gofio'r 'Gamp Lawn' yn ail adran y gynghrair llynedd.

O gofio'r nifer sy'n cystadlu apeliad am dipyn o straeon o'r clybiau ar gyfer y golofn.

Un pwt o fyd y dartiau i orffen. Os mai elfen unrhyw gamp yw ymroddiad, ymarfer, greddf gystadleuol, a thrwy hynny ennyn parch cyd-chwaraewyr, pam nad yw Phil Taylor erioed wedi ennill tlws Personoliaeth Chwaraewr y Flwyddyn y BBC. Ai'r ffaith fod prif sylw'r gamp ar Sky yn cyfrif yn ei erbyn?

Felly yn y cynghreiriau lleol - chwedl Dylan Jones - gwyliwch yr 180, 147, yr 11 darter, a gadewch i mi wybod.

Roy Owen, sy'n arwain ar faterion chwaraeon a hamdden ar Gyngor Gwynedd:

Mae clybiau a sefydliadau chwaraeon yn gallu elwa o grantiau o hyd at £1,000 drwy'r Gist Gymunedol sy'n cael ei ariannu gan Chwaraeon Cymru ac sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd.

Am ffurflen gais am gronfa chwaraeon Gwynedd cysylltwch â Gwasanaeth Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd ar (01758) 704010. Er mwyn derbyn arweiniad am y broses ymgeisio cysylltwch ag Elwyn Jones, Swyddog Datblygu Chwaraeon Cyngor Gwynedd ar (01758) 704067 neu David Lloyd-Williams, Swyddog Datblygu Chwaraeon Cynorthwyol Cyngor Gwynedd ar (01758) 704057.

Marathon Eryri

Y Sadwrn ar ôl i'r rhifyn hwn ymddangos bydd y ras boblogaidd hon yn cael ei chynnal o amgylch yr Wyddfa, gyda rhai cannoedd o redwyr yn mentro ar y daith o 26 milltir; y farathon sy'n cael ei chyfrif y galetaf yn Ewrop. Eleni, mae peth newidiadau i'r cwrs, a diddorol fydd gweld pa effaith a gaiff hyn ar amseroedd y goreuon. Bydd y ras yn cychwyn ar y ffordd fawr rhwng Llanberis a phen draw Llyn Peris, ac yn osgoi'r lôn gefn heibio i'r eglwys yn Llanberis ar y diwedd. Ond mae'n sicr mai'r newid mwyaf fydd penderfyniad y trefnwyr i anfon y rhedwyr i lawr yr hen ffordd o Ben y Gwryd i Gwm Dyli yn hytrach na dilyn y ffordd fawr. Mae'r dewis hwn wedi ei wneud oherwydd diogelwch, gan fod y ffordd i lawr i Nant Gwynant yn droellog, a nifer helaeth o'r rhedwyr yn tueddu i dorri ar draws y corneli wrth ddisgyn i lawr i'r dyffryn. Ac, wrth gwrs, erbyn i'r rhan fwyaf o'r rhedwyr gyrraedd y rhan hon o'r ras, bydd trafndiaeth yn gyrru i fyny i'w cwrdd.

Unwaith eto eleni, mae nifer helaeth o redwyr lleol yn cymryd rhan, a chawn adroddiad llawn am y ras yn y rhifyn nesaf.



Ar Ben

Arall y Lein

Dyna dymor arall heibio; yr amser wedi mynd fel y gwynt ond beth am y pysgota? Tymor eithaf di-nod sydd wedi bod ar y Seiont a Llyn Padarn, dydw i ddim am fynd ymlaen fel tiwn gron am y problemau sy'n gysylltiedig â'r llyn ond mae effaith yr hyn sy'n digwydd yno yn bellgyrhaeddol. Os na fydd y sefydliadau sydd â'r grym i fynd â'r maen i'r wal yn gweithredu yn fuan, yna cyn belled ac mae dalgylch Padarn a'r Seiont yn y cwestiwn ni fydd Cymdeithas Bysgota yn bodoli. Mae dim incwm yn golygu na fydd yn bosib talu y rhenti a gytunwyd rai blyneddau yn ôl pan oedd y 'sgota ar i fyny.

Ar 17 Medi 2010 fe gynhaliwyd cyfarfod Fforwm Padarn yn swyddfeydd Asiantaeth yr Amgylchedd ym Mangor. Mae cynrychiolaeth ar y corff o rai sy'n ddibynnol ar y Llyn yn cynnwys y Gymdeithas 'sgota, hefyd Cyngor Cefn